# Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Polisi Marchnadoedd y Dyfodol

## Ymgynghoriad ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon

Dyddiad cau: 11 Mawrth 2024

Rhagfyr 2023

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:
ukets.consultationresponses@energysecurity.gov.uk

# Cynnwys


Gwybodaeth gyffredinol 5
- Pam rydym yn ymgynghori 5
- Manylion yr ymgynghoriad 5
- Sut i ymateb 7
- Cyfrinachedd a diogelu data 7
- Sicrhau ansawdd 7

Cyflwyniad 9
- Sut y caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal 10
- Crynodeb o'r cynigion yn y ddogfen hon 12

Polisi Marchnadoedd Presennol 13
- Marchnad CMA y DU 13
- Polisi marchnadoedd presennol 13

Risgiau i Sefydlogrwydd y Farchnad 16
- Y prif risgiau a allai atal marchnad CMA y DU rhag gweithredu'n effeithiol 16
- Risgiau ychwanegol 18
- Risgiau y bydd mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad yn eu lliniaru 19

Risg 1: Newid yn y galw sy'n arwain at effeithiau hirdymor 20
- Trosolwg 20
- Opsiynau polisi 20
- Asesiad yr Awdurdod 24
- Opsiynau manwl ar gyfer llunio polisïau 25

Risg 2: Gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau 31
- Trosolwg 31
- Opsiynau polisi 31
- Asesiad yr Awdurdod 37
- Opsiynau manwl ar gyfer llunio polisïau 38

Risg 3: Cynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau 41
- Trosolwg 41
- Opsiynau Polisi 41
- Asesiad yr Awdurdod 44
- Opsiynau manwl ar gyfer llunio polisïau 44

Y Gronfa wrth Gefn 48

Polisi Marchnadoedd Ehangach 49

Y camau nesaf 49

Cwestiynau'r ymgynghoriad 50
Atodiad 54
Rhestr termau 55

# Gwybodaeth gyffredinol

## Pam rydym yn ymgynghori

Mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (CMA y DU) (Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, sef 'yr Awdurdod' o hyn ymlaen) yn gofyn am fewnbwn ynghylch nifer o gynigion ar gyfer datblygu polisi marchnadoedd y dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn adolygu polisi marchnadoedd CMA y DU er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac yn effeithiol o ran rheoli'r risgiau sy'n wynebu cynllun sefydledig sy'n aeddfedu. Bydd hyn yn helpu i gynnal amodau sefydlog ac effeithiol mewn marchnadoedd a fydd yn parhau i gymell datgarboneiddio yn y sector a fasnachir.

Yr ymgynghoriad hwn yw ail ran y dull dau gam a fydd yn ystyried newidiadau i bolisi marchnadoedd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar y canlynol:

- A yw'r Awdurdod wedi canfod y risgiau mwyaf arwyddocaol i weithrediad effeithiol marchnadoedd;
- Pa mor addas yw gwahanol opsiynau polisi er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau sydd wedi'u canfod;
- Sut y dylai polisïau sefydlogrwydd y farchnad unigol gael eu dylunio er mwyn mynd i'r afael â risgiau mewn marchnadoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol gan sicrhau cyn lleied â phosibl o ymyrryd a tharfu yn y marchnadoedd ar yr un pryd.

## Manylion yr ymgynghoriad

**Cyhoeddwyd:** 18 Rhagfyr 2023

**Ymatebwch erbyn:** 11 Mawrth 2024

**Ymholiadau i:**

Emissions Trading Department for Energy Security and Net Zero
3rd Floor (UK ETS Markets)
3 Whitehall Place
London
SW1A 2EG

E-bost: ukets.consultationresponses@energysecurity.gov.uk

**Cyfeirnod yr ymgynghoriad:** Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Polisi Marchnadoedd y Dyfodol

**Cynulleidfaoedd:**

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb arbennig i gwmnïau unigol a chynrychiolwyr sectorau ym meysydd diwydiant, pŵer a hedfanaeth sydd â rhwymedigaethau o dan CMA y DU yn ogystal â rhanddeiliaid eraill gan gynnwys masnachwyr marchnadoedd y CMA, sefydliadau ariannol a buddsoddwyr, a grwpiau amgylcheddol. Bydd hefyd o ddiddordeb i gwmnïau unigol a chynrychiolwyr sectorau ym meysydd gweithgarwch morol, gwastraff, cael gwared ar nwyon tŷ gwydr ac amaethyddiaeth. Nid yw'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i'r rhanddeiliaid hyn yn unig; mae croeso i unrhyw sefydliad neu unigolyn ymateb. (Dylid nodi nad yw'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i gynhyrchwyr trydan yng Ngogledd Iwerddon sy'n cymryd rhan yn SMA yr UE drwy rinwedd Protocol Iwerddon / Gogledd Iwerddon.)

**Cwmpas tiriogaethol:**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynigion i ddatblygu CMA y DU, sydd ar waith ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn, a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

# Sut i ymateb

**Ymatebwch ar-lein yn:** https://energygovuk.citizenspace.com/energy-markets/uk-emissions-trading-scheme-ets-markets

neu

**E-bostiwch:** ukets.consultationresponses@energysecurity.gov.uk

**Ysgrifennwch i:**

Emissions Trading, Department for Energy Security and Net Zero
3rd Floor (UK ETS Markets)
3 Whitehall Place
London
SW1A 2EG

Wrth ymateb, cofiwch nodi p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli safbwyntiau sefydliad.

Bydd yr ymatebion mwyaf defnyddiol yn ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, ond croesewir tystiolaeth a sylwadau pellach hefyd.

# Cyfrinachedd a diogelu data

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu rhannu o fewn Awdurdod CMA y DU. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a roddir gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei datgelu yn unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu rhannu o fewn Awdurdod CMA y DU.

Os hoffech i'r wybodaeth a roddir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, rhowch wybod inni, ond dylech fod yn ymwybodol na allwn warantu cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fyddwn yn trin ymwadiad cyfrinachedd a luniwyd yn awtomatig gan eich system TG fel cais am gyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol. Gweler ein polisi preifatrwydd.

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar GOV.UK. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill pobl.

# Sicrhau ansawdd

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth.

Os bydd gennych unrhyw gwynion ynglŷn â'r ffordd y mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal, e-bostiwch: bru@energysecurity.gov.uk.

# Cyflwyniad

Caiff Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (CMA y DU) ei lywodraethu gan Awdurdod CMA y DU (‘yr Awdurdod’ o hyn ymlaen). Mae'r Awdurdod yn cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) Gogledd Iwerddon. Fe'i lansiwyd ar 1 Ionawr 2021 yn dilyn ymadawiad y DU o System Masnachu Allyriadau'r UE (SMA yr UE).

Pan gafodd CMA y DU ei sefydlu gyntaf, rhoddwyd polisïau marchnadoedd ar waith er mwyn helpu i lansio marchnad CMA newydd mewn modd sefydlog a helpu'r cynllun i weithredu'n effeithiol yn ystod ei flynyddoedd cynnar. Mae CMA y DU bellach yn nesáu at ei bedwaredd flwyddyn o weithredu ac mae'n parhau i ddatblygu.

Ers ei lansio, mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi pecyn pellgyrhaeddol o ddiwygiadau. Mae hyn yn cynnwys y penderfyniad i gysoni cap CMA y DU â sero net[1]. Bydd y gyfres lawn o ddiwygiadau a nodwyd mewn ymateb i ymgynghoriad ‘Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU’ (‘Ymateb yr Awdurdod’)[2], gan gynnwys gostyngiad o 30% i'r cap ar gyfer Cam 1 (2021 – 2030), addasiadau i'r polisi dyrannu am ddim, ac ehangu'r cynllun i gynnwys sectorau newydd, yn arwain at ddatblygu CMA y DU erbyn diwedd y degawd.

Mae'r Awdurdod yn adolygu polisi marchnadoedd CMA y DU er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac yn effeithiol o ran rheoli'r risgiau sy'n wynebu cynllun sefydledig sy'n aeddfedu. Bydd hyn yn helpu i gynnal amodau sefydlog ac effeithiol mewn marchnadoedd a fydd yn parhau i gymell datgarboneiddio yn y sector a fasnachir.

Mae'r adolygiad o farchnadoedd CMA y DU wedi cael ei gynnal mewn dau gam. Fel rhan o ‘Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU’ (yr ‘Ymgynghoriad Datblygu’), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, roedd y cam cyntaf yn cynnwys cais am dystiolaeth ynghylch polisi marchnadoedd y dyfodol. Drwy'r cais am dystiolaeth, casglwyd safbwyntiau rhanddeiliaid ar ffactorau a allai ysgogi datblygiadau yn amodau'r farchnad, amcanion ar gyfer polisi marchnadoedd wrth i CMA y DU ddatblygu, a gwerthusiad o fecanweithiau presennol y marchnadoedd. Mae'r Awdurdod yn ddiolchgar am yr wybodaeth a'r dystiolaeth y mae wedi'u cael, ac mae wedi'u defnyddio i lywio'r ffordd y caiff cam nesaf yr adolygiad marchnadoedd ei gynnal.

**Yr ymgynghoriad hwn yw ail ran y dull dau gam a fydd yn ystyried newidiadau i bolisi marchnadoedd.** Gan adeiladu ar yr ymatebion gan randdeiliaid i'r cais am dystiolaeth, mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar y canlynol:

- A yw'r Awdurdod wedi canfod y risgiau mwyaf arwyddocaol i weithrediad effeithiol marchnadoedd;

[1] Gweler ‘25 July 2023 - Note on implementing legislation’ am fanylion y dull o ymdrin â hyn ar gyfer 2024 https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets

[2] I gael rhagor o fanylion am y penderfyniad hwn, gweler Ymateb yr Awdurdod i ‘Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU’, Gorffennaf 2023

- Pa mor addas yw gwahanol opsiynau polisi er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau sydd wedi'u canfod;
- Sut y dylai polisïau sefydlogrwydd y farchnad unigol gael eu dylunio er mwyn mynd i'r afael â risgiau mewn marchnadoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol gan sicrhau cyn lleied â phosibl o ymyrryd a tharfu yn y marchnadoedd ar yr un pryd.

# Sut y caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal

Roedd cais yr Awdurdod am dystiolaeth yn nodi'r amcanion canlynol ar gyfer polisi marchnadoedd CMA y DU.  Dangosodd yr ymatebion gan randdeiliaid gefnogaeth gref o blaid yr amcanion hyn:

- Rhoi sicrwydd hirdymor i gyfranogwyr ynghyd â dull seiliedig ar reolau ar gyfer unrhyw ymyriad gan yr Awdurdod.
- Llunio unrhyw bolisïau sefydlogrwydd y farchnad mewn ffordd sy'n lleihau gallu unrhyw endid i 'chwarae'r system' mewn perthynas â'r polisi.
- Gwrthsefyll cynnydd a gostyngiad annisgwyl a gormodol mewn prisiau a/neu alw a allai ddadsefydlogi'r farchnad fel y bo'n briodol.
- Cefnogi prosesau canfod prisiau a hylifedd ym marchnadoedd CMA y DU.
- Diogelu marchnadoedd CMA y DU rhag camddefnyddio a gweithgarwch a allai eu dadsefydlogi'n sylweddol.

Yr amcanion hyn sydd wedi llywio asesiad yr Awdurdod o'r opsiynau polisi a nodir yn y ddogfen hon.

Yn ogystal â'r amcanion a nodir uchod, rydym hefyd wedi ystyried sawl egwyddor arweiniol, sef y dylai polisi marchnadoedd gynnal uniondeb amgylcheddol y cynllun[3] ac y dylai fod mor syml â phosibl er mwyn rhoi eglurder i gyfranogwyr. Ar ben hynny, dylai'r Awdurdod ymyrryd cyn lleied â phosibl yn y farchnad er mwyn galluogi grymoedd y farchnad i barhau i ysgogi prisiau a'r signal o blaid datgarboneiddio.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i rannu'n adrannau fel a ganlyn:

- **CMA y DU a'r polisi marchnadoedd presennol:** Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o farchnad CMA y DU ac yn nodi'r polisi marchnadoedd presennol.
- **Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad:** Mae'r adran hon yn trafod y risgiau posibl i weithrediad effeithiol y farchnad ac yn nodi tair prif risg y bydd angen i bolisi marchnadoedd hyblyg fynd i'r afael â nhw yn ein barn ni.
- **Opsiynau polisi:** Mae'r adran hon wedi'i rhannu'n dair pennod sy'n archwilio'r amrywiaeth o opsiynau polisi sydd ar gael ar gyfer lliniaru pob un o'r tair prif risg. Mae pob pennod yn rhoi trosolwg o'r gwahanol fathau o fecanweithiau sefydlogrwydd y

[3] O fis Ionawr 2024 ymlaen, bydd CMA y DU yn gyson â sero net. Gweler Ymateb yr Awdurdod i 'Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU', Gorffennaf 2023.

farchnad y gellid eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau a ganfuwyd ac yn nodi safbwyntiau y mae'r Awdurdod yn eu datblygu ynghylch pecyn o bolisïau i gefnogi amodau effeithiol yn y farchnad.

- **Y gronfa wrth gefn a pholisi marchnadoedd ehangach:** Mae'r adrannau hyn yn amlinellu safbwynt yr Awdurdod ynghylch y gronfa wrth gefn a'r polisi marchnadoedd ehangach (gan gynnwys camddefnyddio marchnadoedd a gweithrediad marchnadoedd).

Byddem yn croesawu cyfraniadau at yr ymgynghoriad hwn gan bob rhanddeiliad, gan gynnwys gweithredwyr, cyrff rheoleiddio, cyfranogwyr marchnadoedd, masnachwyr, grwpiau hinsawdd a sefydliadau anllywodraethol. Lle bynnag y bo modd, byddem yn croesawu tystiolaeth benodol i ategu safbwyntiau. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i lywio penderfyniadau ynghylch polisi marchnadoedd a gaiff eu cyhoeddi mewn Ymateb gan Awdurdod CMA y DU. Caiff amseriad y newidiadau polisi hyn ei nodi pan fydd yr Awdurdod yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

## Crynodeb o'r cynigion yn y ddogfen hon

Isod ceir crynodeb o'r safbwyntiau y mae Awdurdod CMA y DU yn eu datblygu fel y'u nodir yn y ddogfen hon. **Dylid nodi nad penderfyniadau terfynol yw'r rhain.** Bydd penderfyniadau terfynol ynghylch unrhyw fecanweithiau polisi marchnadoedd yn y dyfodol yn destun asesiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a thystiolaeth a gwaith dadansoddi pellach.

- **Mae'r Awdurdod o blaid rhoi Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risg o newid yn y galw sy'n arwain at effeithiau hirdymor yn y farchnad.** Er mwyn llywio penderfyniad dilynol, rydym yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid a thystiolaeth ehangach i ategu meysydd llunio polisïau allweddol os bydd yr Awdurdod yn penderfynu rhoi Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd ar waith.
- **Mae'r Awdurdod o blaid parhau â Phris Cadw ar gyfer Arwerthiannau** fel mecanwaith polisi effeithiol i liniaru'r risg o ostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau. Hefyd, hoffem archwilio opsiynau ar gyfer newid dyluniad y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau er mwyn sicrhau y bydd yn lliniaru risg cymaint â phosibl ac yn parhau i fod yn effeithiol wrth i'r cynllun ddatblygu.
- Rydym yn ymgynghori ar rinweddau cyflwyno mecanweithiau ychwanegol ochr yn ochr â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau er mwyn lliniaru'r risg o brisiau isel gormodol a pharhaus.
- **Mae'r Awdurdod o blaid parhau â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau** fel mecanwaith polisi effeithiol i liniaru'r risg o gynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau.
- **Rydym yn archwilio elfennau o ddyluniad y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau megis ymatebolrwydd y trothwyon sbarduno a'r fethodoleg o ran lefel sbarduno (hanesyddol o gymharu ag absoliwt).** Mae'r Awdurdod o blaid parhau i ddefnyddio disgresiwn ynghylch a ddylid gweithredu ar y sbardun ond hoffai ystyried a allai fod elfen o awtomeiddio, megis nifer penodedig o lwfansau'n cael eu hychwanegu at y cyflenwad.

# Polisi Marchnadoedd Presennol

## Marchnad CMA y DU

Fel cynllun capio a masnachu sy'n seiliedig ar farchnadoedd, mae CMA y DU yn gosod cap gostyngol ar allyriadau o'r sector a fasnachir ac yn goruchwylio marchnad ar gyfer lwfansau er mwyn cyflawni pris am garbon. Mae gosod cap er mwyn cyfyngu ar gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector a fasnachir yn sicrhau y bydd cyfanswm yr allyriadau'n lleihau yn unol â'r trywydd sy'n lleihau ac yn annog busnesau i fuddsoddi mewn datgarboneiddio costeffeithiol. Bydd hyn yn helpu i gyflawni'r ymrwymiadau hinsawdd a wnaed gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) Gogledd Iwerddon.

Mae galluogi cyfranogwyr i fasnachu lwfansau yn rhoi hyblygrwydd i'r sector a fasnachir yn eu cyfanrwydd ac yn sicrhau y bydd datgarboneiddio'n digwydd lle a phryd y bydd ei gost ar ei isaf. Gall marchnad sefydlog ar gyfer carbon sicrhau y bydd masnachu allyriadau'n arwain at gymaint â phosibl o fanteision drwy gefnogi hyder a sicrwydd ar gyfer gweithredwyr.

Mae'r Atodiad Dadansoddol (tudalennau 11-16) yn rhoi trosolwg manwl o ddiben y farchnad a rhagor o fanylion am ffactorau sy'n helpu'r farchnad i weithredu'n effeithiol.

## Polisi marchnadoedd presennol

Ar hyn o bryd, mae gan CMA y DU ddau fecanwaith sefydlogrwydd y farchnad. Yn ogystal â'r mecanweithiau hyn, mae dyluniad y cynllun yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion eraill sy'n hybu sefydlogrwydd y farchnad (e.e. proses glirio ar gyfer arwerthiannau) a darpariaethau rheoleiddio ehangach sy'n berthnasol i fasnachu allyriadau (e.e. Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad y DU[4]) sy'n cefnogi uniondeb y farchnad.

### Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau

Mae'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau wedi'i bennu ar £22 fesul lwfans allyriadau, ac ni chaiff yr un cynnig islaw'r pris hwn ei dderbyn mewn arwerthiant. Mae'n diogelu rhag prisiau isel ac fe'i cyflwynwyd er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch isafswm prisiau yn ystod y cyfnod o bontio o SMA yr UE i CMA y DU. Mae'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau'n creu terfyn isaf meddal ar brisiau ym marchnad CMA y DU, gan roi signal hirdymor o isafswm pris, sef £22.

Pan na chaiff arwerthiant ei glirio'n llwyr, caiff unrhyw lwfansau sy'n weddill eu hailddosbarthu i'r pedwar arwerthiant dilynol hyd at 125% o'u nifer gwreiddiol. Uwchlaw'r terfyn hwn, caiff lwfansau eu trosglwyddo i gyfrif y mecanwaith sefydlogrwydd y farchnad. Mae hyn yn golygu y

[4] Mae Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad y DU yn cynnwys y ddeddfwriaeth, y safonau technegol a'r canllawiau canlynol: Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad yr UE fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Camddefnyddio'r Farchnad (Ymadael â'r UE) 2019; Safonau Technegol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) mewn perthynas â Rheoliad Camddefnyddio'r Farchnad y DU; Canllawiau Awdurdod Gwarantau a Marchnadoedd Ewrop (ESMA) a chwestiynau ac atebion ESMA a oedd yn bodoli cyn diwedd y cyfnod pontio; a chanllawiau'r FCA o Lawlyfr yr FCA. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: https://www.fca.org.uk/markets/market-abuse/regulation

gall lwfansau lifo'n fwy esmwyth o arwerthiannau i mewn i'r farchnad ehangach, gan hybu hylifedd.

Ers lansio CMA y DU, mae'r Awdurdod wedi ystyried mai polisi dros dro yw'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau, y bwriedir iddo sicrhau cyfnod pontio esmwyth, ac yna gael ei ddirwyn i ben yn raddol wrth i'r farchnad aeddfedu[5,6].

## Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau

Mae CMA y DU yn cynnwys Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau a gaiff ei sbarduno os bydd y prisiau cyfredol yn uchel am gyfnod estynedig o gymharu â chyfartaledd hanesyddol. Mae'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn fodd i liniaru achosion o brisiau uchel dan amgylchiadau cyfyngedig a phenodol. Pan gaiff ei sbarduno, gall yr Awdurdod wedyn asesu natur y newidiadau mewn prisiau dan sylw a phenderfynu a ddylai ymyrryd, ac i ba raddau, drwy gynyddu'r cyflenwad i arwerthiannau cyfredol[7].

Caiff y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ei sbarduno os bydd pris cyfartalog un lwfans ar y farchnad eilaidd ar gyfer contractau dyfodol yn fwy na swm sy'n gyfwerth â thair gwaith y pris cyfartalog yn y cyfnod dwy flynedd cyn hynny am chwe mis yn olynol[8].

Os penderfynir ymyrryd yn y farchnad, gall y Trysorlys awdurdodi'r canlynol:

- Newidiadau i'r ffordd y caiff lwfansau a arwerthir eu dosbarthu o fewn blwyddyn galendr;
- Cynnydd yn niferoedd y lwfansau i'w harwerthu mewn blwyddyn benodol drwy ddwyn lwfansau a arwerthir ymlaen o flynyddoedd yn y dyfodol;
- Rhyddhau lwfansau i'w harwerthu o'r cap diwydiant na chânt eu dyrannu am ddim drwy'r Tabl Dyrannu;
- Rhyddhau lwfansau yn y gyfran hyblyg i'w harwerthu;
- Rhyddhau hyd at 25% o'r lwfansau a ddelir yn y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Newydd-ddyfodiaid i'w harwerthu yn y flwyddyn galendr honno; neu
- Ryddhau lwfansau o gyfrif y mecanwaith sefydlogrwydd y farchnad i'w harwerthu yn ystod y flwyddyn galendr honno.

## Y Gronfa wrth Gefn

Cyhoeddodd yr Awdurdod y byddai'n neilltuo 29.5 miliwn o lwfansau[9] o'r cap ar gyfer rheoli'r farchnad yn y dyfodol am weddill Cam 1 (h.y. tan 2030) er mwyn sicrhau cadernid hirdymor y farchnad. Mae hyn yn gyfwerth â mwy na 3% o'r cap cyffredinol. Mae sawl ffordd o ddefnyddio'r gronfa hon: er mwyn lliniaru Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau ac ar gyfer pan gaiff mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad eu sbarduno gan olygu bod angen lwfansau ychwanegol.

[5] Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd â Rheoliadau Arwerthiannau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021, tudalen 4, https://www.legislation.gov.uk/uksi/2021/484/memorandum/contents
[6] Ymgynghoriad Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, tudalen 60, https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets
[7] Pe na bai'r Awdurdod yn cytuno ar safbwynt, byddai Trysorlys EF yn gwneud penderfyniad.
[8] Mae'r pris yn cyfeirio at bris setlo diwedd dydd cyfartalog contract dyfodol mis Rhagfyr ar gyfer Lwfansau'r DU.
[9] Caiff y ffigur hwn ei gyflwyno i'r 0.5 miliwn agosaf drwy gydol y ddogfen hon.

## Polisi marchnadoedd ehangach

Arwerthiannau un rownd â phris unffurf a chynigion wedi'u selio a gaiff eu cynnal bob pythefnos yw arwerthiannau CMA y DU. Caiff lwfansau eu dosbarthu drwy gydol y flwyddyn galendr yn unol â'r calendr arwerthiannau a gaiff ei gyhoeddi ymlaen llaw. Bydd modd gwerthu lwfansau mewn arwerthiant o hyd, hyd yn oed os na wneir cynnig am bob lwfans, gan olygu y bydd yr arwerthiant wedi'i glirio'n rhannol. Nod hyn yw cyfyngu ar unrhyw leihad yn y cyflenwad yn sgil galw isel, ac mae'n helpu lwfansau i lifo'n fwy rhwydd i mewn i'r farchnad. Gellir cario lwfansau heb eu gwerthu drosodd i'r pedwar arwerthiant dilynol hyd at derfyn o 125% o'u nifer gwreiddiol ac, ar ôl hynny, caiff lwfansau eu symud i gyfrif y mecanwaith sefydlogrwydd y farchnad.

Er mwyn diogelu rhag achosion o gamddefnyddio’r farchnad, mae marchnadoedd ariannol, gan gynnwys marchnadoedd CMA, yn ddarostyngedig i gyfundrefnau rheoleiddio sy'n gwahardd ymddygiad sy'n gyfystyr â chamddefnyddio. Mae'r cyfundrefnau hyn yn diogelu rhag achosion o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol yn anghyfreithlon, masnachu mewnol a chamdrafod y farchnad drwy ei gwneud yn ofynnol i bersonau fod wedi rhoi trefniadau penodol ar waith i leihau'r risg o gamddefnyddio'r farchnad. Rhoddir pwerau i reoleiddwyr gwasanaethau ariannol adnabod camddefnyddio’r farchnad a chymryd camau yn ei erbyn pan fydd yn digwydd. Yn CMA y DU, gall y platfform arwerthiannau penodedig bennu uchafswm maint cynnig, neu gyflwyno unrhyw fesurau unioni eraill sy'n angenrheidiol i liniaru risg wirioneddol neu risg ddirnadwy bosibl o gamddefnyddio'r farchnad, ar ôl ymgynghori â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a'r arwerthwr.

# Risgiau i Sefydlogrwydd y Farchnad

Er mwyn i bolisi marchnadoedd fod yn effeithiol, mae angen canfod a deall y risgiau a allai atal marchnadoedd rhag gweithredu'n esmwyth ac yn effeithiol. Mae'r bennod hon yn nodi'r risgiau allweddol i'r farchnad a gafodd eu canfod gan yr Awdurdod.

## Y prif risgiau a allai atal marchnad CMA y DU rhag gweithredu'n effeithiol

Mae'r Awdurdod wedi ystyried yr amrywiaeth o ffactorau a allai effeithio ar farchnad CMA y DU, gan gynnwys ystyried ymatebion i'r cais am dystiolaeth. Mae'r broses hon wedi canfod tair prif risg a allai atal marchnad CMA y DU rhag gweithredu'n effeithiol y dylai polisi marchnadoedd gael ei ddylunio i fynd i'r afael â nhw.

### Risg 1: Newid yn y galw sy'n arwain at effeithiau hirdymor

Mae'r risg hon yn ymwneud â newidiadau i faint o warged sydd yn y farchnad o ganlyniad i newidiadau annisgwyl yn y galw. Caiff gweithrediad effeithiol marchnad CMA y DU ei gefnogi gan rywfaint o warged yn y cynllun. Diffinnir gwarged fel nifer y lwfansau sy'n bresennol yn y cynllun uwchlaw nifer y lwfansau sy'n ofynnol i gydymffurfio bob blwyddyn. Mae'r gwarged hwn yn cefnogi hylifedd a phroses darganfod prisiau yn y farchnad ac yn rheoli'r galw am ymddiogelu ymhlith cyfranogwyr.

Mae faint o warged sydd yn y cynllun yn dibynnu ar y cyflenwad a'r galw dros amser. Bydd newid yn y galw mewn blwyddyn benodol yn effeithio ar faint y gwarged – bydd y gwarged yn tyfu os bydd y cyflenwad yn fwy na'r galw a bydd y gwarged yn lleihau os bydd y galw'n fwy na'r cyflenwad.

Gall gwarged annigonol neu ormodol gael effeithiau andwyol ar weithrediad y farchnad. Gall hyn gael ei achosi gan ddatblygiadau sy'n newid y galw mewn ffyrdd annisgwyl (h.y. datblygiadau nad ydynt wedi cael eu rhagweld/nad ydynt wedi llywio penderfyniadau strwythurol ynghylch dyluniad y cynllun). Os nad eir i'r afael â'r risg hon, gallai hynny arwain at effeithiau hirdymor ar y farchnad.

- **Gall gwarged gormodol** godi os bydd y galw am lwfansau dros amser yn is na'r cyflenwad o lwfansau i'r farchnad. Gallai hyn ddigwydd oherwydd, er enghraifft, cwymp macroeconomaidd sy'n lleihau allbwn a'r galw am lwfansau. Gallai gwarged gormodol ostwng prisiau lwfansau dros amser, gan leihau'r cymhelliad i gyfranogwyr fuddsoddi mewn technolegau lleihau allyriadau. Gallai hyn arwain at ohirio lleihad mewn allyriadau mewn rhai sectorau tra bydd prisiau'n aros yn isel, a gallai hynny yn ei dro arwain at yr angen i leihau allyriadau'n gyflym dros gyfnod byr mewn blynyddoedd diweddarach.
- **Gall gwarged annigonol** godi os bydd y galw am lwfansau dros amser yn fwy na'r cyflenwad o lwfansau i'r farchnad. Gallai hyn ddigwydd oherwydd, er enghraifft, twf

macroeconomaidd sy'n cynyddu allbwn a'r galw am lwfansau. Gallai gwarged annigonol arwain at lai o hylifedd ym marchnad CMA y DU, gan leihau manteision y farchnad o ran effeithlonrwydd economaidd. Gallai hefyd arwain at gostau uwch ac erydu gallu cyfranogwyr y farchnad i fuddsoddi mewn lleihau allyriadau tra byddant yn wynebu rhwymedigaethau cydymffurfio drutach. Byddai hyn yn wrthgynhyrchiol o ran cyflawni nodau'r cynllun.

## Risg 2: Gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau

Yn ogystal â newidiadau arafach a allai newid y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw yn y farchnad dros amser, mae'n bosibl y gallai rhai ffactorau sy'n ysgogi amodau'r farchnad hefyd gael effaith fwy sydyn a thrawiadol ar CMA y DU, gan arwain at amodau eithafol yn y farchnad. Byddai'r mathau hyn o effeithiau yn ddigwyddiadau annisgwyl yn y farchnad, a gallent arwain at newid cyflym mewn prisiau. Er bod caniatáu i brisiau godi a gostwng mewn CMA yn rhan ganolog o fanteision y farchnad, ac er nad yw'r Awdurdod yn targedu prisiau penodol, os bydd newidiadau annisgwyl mewn prisiau'n digwydd yn gyflym, ac os byddant yn newidiadau mawr, gall hyn gael effaith negyddol ar allu gweithredwyr i gynllunio buddsoddiadau mewn datgarboneiddio ac amharu ar hyder buddsoddwyr yn y farchnad.

**Gallai gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus gael ei achosi gan ddigwyddiad annisgwyl yn y farchnad sy'n lleihau'r galw.** Byddai'r math hwn o ddigwyddiad annisgwyl yn lleihau'r gost cydymffurfio i weithredwyr yn sylweddol, a byddai hynny'n lleihau'r signal datgarboneiddio a gaiff ei greu gan CMA y DU, a gallai arwain at ohirio lleihad mewn allyriadau tra bydd prisiau'n aros yn isel.

Mae'r risg o ostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau yn lleihau sicrwydd yn sylweddol i fuddsoddwyr sy'n ystyried buddsoddi mewn datgarboneiddio. Mae'r posibilrwydd o ostyngiadau mawr mewn prisiau yn y dyfodol yn creu amgylchedd buddsoddi mwy mentrus gan fod proffidioldeb y buddsoddiadau hyn yn dibynnu ar y costau a gaiff eu hosgoi drwy leihau allyriadau. Os bydd posibilrwydd sylweddol i brisiau'r CMA fod yn rhatach yn y dyfodol, gallai hynny danseilio'r achos o blaid buddsoddi mewn prosiect datgarboneiddio penodol.

Un enghraifft o ffactor a allai achosi'r math hwn o ddigwyddiad annisgwyl yw cynnydd dros dro mewn prisiau ynni. Gallai cynnydd mewn prisiau ynni effeithio ar gystadleurwydd diwydiannau'r DU a lleihau eu hallbwn a'r galw am lwfansau'r DU. Pe bai'r lleihad hwn yn ddigon mawr, byddai llai o gystadleuaeth am y cyflenwad o lwfansau a gallai hyn arwain at ostyngiad eithafol mewn prisiau.

## Risg 3: Cynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau

**Gallai cynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus gael ei achosi gan ddigwyddiad annisgwyl yn y farchnad sy'n cynyddu'r galw.** Byddai'r math hwn o ddigwyddiad annisgwyl yn cynyddu cost allyriadau yn sylweddol i weithredwyr, a allai gael effaith andwyol ar eu cystadleurwydd a pheri risg o gost ormodol ar weithredwyr am fawr ddim budd ychwanegol o ran datgarboneiddio.

Un enghraifft o ffactor a allai achosi'r math hwn o ddigwyddiad annisgwyl yw oedi mewn prosiect datgarboneiddio mawr a ragwelir a fyddai wedi arwain at leihad sylweddol mewn allyriadau. Byddai'r oedi hwn yn arwain at fwy o alw am lwfansau yn y tymor byr nag a ragwelwyd gan y farchnad, gan gynyddu'r galw am lwfansau.

# Risgiau ychwanegol

Yn ogystal â'r tair risg a amlinellir uchod, ceir risgiau eraill a allai amharu ar sefydlogrwydd ac effeithlonrwydd marchnad: hylifedd isel ac anwadalrwydd uchel. Caiff y rhain eu hesbonio isod ac ymhellach yn yr Atodiad Dadansoddol (tudalennau 12-16).

## Hylifedd Isel

Ystyr y term hylifedd yw i ba raddau y gellir prynu neu werthu lwfans allyriadau heb effeithio ar ei bris. Gall hyn fod yn gysylltiedig â faint o weithgarwch sydd yn y farchnad, sydd hefyd yn gysylltiedig â nifer y cyfranogwyr yn y farchnad. Po fwyaf o brynwyr a gwerthwyr gweithredol sydd mewn marchnad, y gwannaf fydd gallu pob un ohonynt i bennu'r pris yn unigol.[10] Mewn egwyddor, bydd mwy o hylifedd yn helpu marchnadoedd i symud, yn lleihau anwadalrwydd, ac yn helpu i atal cyfranogwyr mwy yn y farchnad rhag arfer pŵer yn y farchnad a rheoli'r canlyniad o ran prisiau o bosibl.

Mae hylifedd yn y farchnad yn benderfynydd allweddol o ba mor hawdd y gall grymoedd y farchnad effeithio ar y broses canfod prisiau ac felly i ba raddau y gall y farchnad gyflawni'r manteision o ran effeithlonrwydd economaidd. Mae hylifedd isel yn llesteirio'r gallu i ddarganfod prisiau'n hawdd ac yn cyfyngu ar y manteision a gynigir gan fecanwaith y farchnad.

Gallai llai o hylifedd ddigwydd oherwydd, er enghraifft, llai o ymddygiad ymddiogelu gan y sector a fasnachir neu leihad yn nifer y cyfranogwyr tybiannol (h.y. nad ydynt yn cydymffurfio) yn y farchnad.

## Anwadalrwydd uchel

Ffordd o fesur pa mor gyflym y bydd pris lwfansau'r DU yn newid dros gyfnod penodol yw anwadalrwydd.

Mae anwadalrwydd uchel yn lleihau sicrwydd y signal datgarboneiddio a gaiff ei sefydlu gan CMA y DU ac yn lleihau gallu gweithredwyr i gynllunio eu strategaethau datgarboneiddio. Mae hefyd yn golygu bod mwy o risg yn gysylltiedig â masnachu, a gallai anghymell endidau nad ydynt yn cydymffurfio rhag cymryd rhan yn y farchnad a sicrhau hylifedd.

Gallai anwadalrwydd uchel ddigwydd oherwydd, er enghraifft, ansicrwydd parhaus ynglŷn â chost ynni a nwy.

[10] Wiener 1999, Metcalf a Weisbach 2012.

# Risgiau y bydd mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad yn eu lliniaru

Mae'r risgiau i'r farchnad a gaiff eu trafod yn y bennod hon, gan gynnwys y ffactorau sy'n eu hachosi a'u heffaith, yn ffurfio tirwedd gymhleth. Diben fformat yr ymgynghoriad yw cynnig dull strwythuredig o asesu opsiynau polisi mewn perthynas â'r risgiau allweddol, ond nid oes model perffaith. Nod yr ymgynghoriad yw dod ag amrywiaeth o safbwyntiau ar gynigion polisi ynghyd er mwyn galluogi'r Awdurdod i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â pholisi marchnadoedd y dyfodol. Gellir rhoi mecanweithiau polisi ar waith yn unigol neu fel rhan o becyn o fesurau. Wrth wneud penderfyniadau terfynol, bydd yr Awdurdod yn ystyried sut mae gwahanol fecanweithiau'n rhyngweithio ac yn gweithio gyda'i gilydd.

Bydd y tair pennod nesaf yn canolbwyntio ar yr amrywiaeth o fecanweithiau polisi sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â'r tair risg y tynnir sylw atynt uchod:

- Risg 1: Newid yn y galw sy'n arwain at effeithiau hirdymor.
- Risg 2: Gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau.
- Risg 3: Cynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau.

Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu rhoi polisi marchnadoedd ar waith i liniaru'r risg o hylifedd isel neu anwadalrwydd uchel am ei fod o'r farn y byddai unrhyw fecanwaith a gaiff ei ddylunio â diben o'r fath yn tarfu'n ormodol ar y farchnad. Felly, bydd yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y tair risg uchod.

| Cwestiynau |
|---|
| 1. Ydych chi'n cytuno â'r risgiau allweddol rydym wedi tynnu sylw atynt? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol yn eich ymateb.<br>2. A oes unrhyw risgiau eraill heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru uchod y dylai'r Awdurdod eu hystyried? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol yn eich ymateb. |

# Risg 1: Newid yn y galw sy'n arwain at effeithiau hirdymor

## Trosolwg

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, os caiff y risg hon ei gwireddu, gallai'r cymhelliad i weithredwyr CMA y DU fuddsoddi mewn datgarboneiddio leihau o ganlyniad i'r effeithiau negyddol ar bris carbon a fyddai'n ddisgwyliedig pe bai gwarged gormodol neu annigonol yn y farchnad. Mae'r bennod hon yn archwilio'r opsiynau y mae'r Awdurdod wedi'u canfod ar gyfer lliniaru'r risg hon.

Yn ymarferol, caiff buddsoddiadau mewn datgarboneiddio eu gwneud yn seiliedig ar ddisgwyliadau hirdymor o ran prisiau lwfansau ac, felly, mae'n annhebygol y bydd unrhyw flwyddyn unigol yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, drwy sefydlu mecanwaith sy'n golygu bod modd addasu'r cyflenwad mewn ymateb i amrywiadau yn y galw neu anghydbwysedd strwythurol yn y cynllun dros amser, gallai'r Awdurdod roi mwy o sicrwydd i gyfranogwyr ynglŷn â'r ffordd y gallai amodau'r farchnad ddatblygu yn y tymor hir.

Mae'r Awdurdod yn archwilio mecanweithiau a allai liniaru'r risg o newid yn y galw, a ddiffinnir fel a ganlyn:

- Parhaus – newid yn y galw, sy'n arwain at effeithiau nad ydynt yn rhai byrdymor ond sy'n bodoli neu y disgwylir iddynt fodoli am o leiaf flwyddyn neu fwy, o ran gwarged naill ai oherwydd a) newid blynyddol sylweddol yn y galw a ragwelir neu b) newid graddol yn y cydbwysedd strwythurol rhwng y cyflenwad a'r galw yn y cynllun.
- Sylweddol – newid yn y galw sy'n golygu bod maint y gwarged ym marchnad CMA y DU yn gwneud y canlynol:
    - Tyfu'n rhy fawr, h.y. mae'n sylweddol ac yn barhaus, uwchlaw a thu hwnt i faint gwarged sy'n angenrheidiol er mwyn i'r cynllun weithredu'n effeithiol, ac mae hynny'n achosi gostyngiad gormodol mewn prisiau lwfansau.
    - Mynd yn rhy fach, h.y. nid oes digon o warged i fodloni gofynion ymddiogelu a hylifedd y farchnad, er enghraifft, ac mae hynny'n achosi cynnydd gormodol mewn prisiau lwfansau.

## Opsiynau polisi

Er mwyn galluogi'r cyflenwad o lwfansau i mewn i'r farchnad i fod yn fwy ymatebol i brisiau a maint y gwarged yn y farchnad, gall cynlluniau masnachu allyriadau roi Mecanwaith Addasu Cyflenwad ar waith. Math o bolisi sefydlogrwydd y farchnad sy'n newid y cyflenwad o lwfansau yn y farchnad mewn modd rhagweladwy mewn ymateb i feini prawf ac amodau marchnad penodol a bennwyd ymlaen llaw yw Mecanwaith Addasu Cyflenwad. Mae Mecanwaith Addasu

Cyflenwad yn wahanol i fecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad eraill (megis y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau neu Fecanwaith Cyfyngu ar Gostau) am ei fod yn ceisio cynnig trothwyon sbarduno ar gyfer addasu'r cyflenwad sydd ag ystod uchaf ac ystod isaf.

Ers iddo gael ei lansio yn 2021, mae CMA y DU wedi gweithredu heb Fecanwaith Addasu Cyflenwad. Fodd bynnag, er mwyn lliniaru unrhyw newid yn y galw sy'n arwain at effeithiau hirdymor, byddai'n synhwyrol ystyried a fyddai Mecanwaith Addasu Cyflenwad yn atgyfnerthu'r cynllun drwy ychwanegu at y gyfres o bolisïau mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad sydd ar waith ar hyn o bryd.

Gellir dylunio Mecanwaith Addasu Cyflenwad mewn ffordd sy'n golygu y caiff ei sbarduno mewn dwy brif ffordd:

- Caiff Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd ei ysgogi os bydd rhai mesurau nifer, megis cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad, yn croesi trothwyon rhagddiffiniedig. Pan gaiff y trothwyon hyn eu croesi, gall yr Awdurdod dynnu neu ryddhau nifer cyfyngedig o lwfansau o'r gronfa wrth gefn ac arwerthu'r lwfansau hyn.

- Caiff Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan brisiau ei ysgogi os bydd prisiau lwfansau'n croesi trothwyon rhagddiffiniedig. Pan gaiff y trothwyon hyn eu croesi, gall yr Awdurdod dynnu neu ryddhau nifer cyfyngedig o lwfansau o'r gronfa wrth gefn ac arwerthu'r lwfansau hyn.

Bydd addasiadau i'r cyflenwad ar gyfer y naill fecanwaith a'r llall yn cydymffurfio â'r cap penodedig ac yn addasiadau awtomatig, felly gall y farchnad eu cynnwys wrth brisio. Bydd angen cronfa wrth gefn o lwfansau i weithredu'r ddau fecanwaith, er mwyn ychwanegu lwfansau at y farchnad neu dynnu lwfansau ohoni.

## Mathau o Fecanwaith Addasu Cyflenwad

### *Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd*

Mae Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd yn gweithredu i newid y cyflenwad o lwfansau i'w harwerthu mewn marchnad yn seiliedig ar gyfrifiad blynyddol o gyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad. Os bydd cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn croesi'r trothwy uchaf, sy'n dangos bod gwarged gormodol yn y farchnad, caiff cyfran o lwfansau eu didynnu o'r niferoedd ar gyfer arwerthiannau yn y dyfodol a'u rhoi mewn cronfa wrth gefn. Os caiff y trothwy isaf ei groesi, sy'n golygu bod prinder yn y farchnad, caiff cyfran o lwfansau eu tynnu o'r gronfa wrth gefn a'u bwydo'n ôl i mewn i'r farchnad drwy arwerthiannau yn y dyfodol. Bydd hyn yn rheoli gwarged gormodol neu annigonol dros amser.

Y brif enghraifft o Fecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd yw Cronfa Sefydlogrwydd y Farchnad System Masnachu Allyriadau'r UE (SMA yr UE).

**Cronfa Sefydlogrwydd y Farchnad SMA yr UE**

Dechreuodd y Gronfa Sefydlogrwydd y Farchnad weithredu yn 2019, er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd strwythurol sylweddol rhwng y cyflenwad a'r galw yn y cynllun o ganlyniad i warged mawr a oedd wedi cronni yn y blynyddoedd yn dilyn y dirywiad economaidd yn 2008. Effaith y gwarged oedd gostwng prisiau SMA yr UE yn sylweddol, a thrwy hynny leihau'r cymhelliad i ddiwydiannau a oedd o fewn cwmpas SMA yr UE i fuddsoddi mewn datgarboneiddio. Mae CMA y DU wedi bod ar waith ers tair blynedd ac, fel y cyfryw, nid yw wedi cronni lefelau o warged sy'n cyfateb i'r lefelau yn SMA yr UE.

Mae'r Gronfa Sefydlogrwydd y Farchnad yn gweithio ar sail cyfrifo cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad bob blwyddyn fel a ganlyn:

Cyflenwad – (Galw + lwfansau yn y Gronfa Sefydlogrwydd y Farchnad)[11]

Os bydd cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn croesi'r trothwyon sbarduno uchaf neu isaf penodedig, bydd cyfran o lwfansau, a oedd wedi'u bwriadu i gael eu harwerthu, naill ai'n cael eu rhoi mewn cronfa wrth gefn yn awtomatig er mwyn lleihau'r cyflenwad i'r farchnad os caiff y trothwy uchaf ei groesi, neu'n cael eu bwydo'n ôl i mewn i'r farchnad o'r gronfa wrth gefn os caiff y trothwy isaf ei groesi yn lle hynny. Hyd yma, dim ond y trothwy uchaf, sef 833 miliwn, sydd wedi cael ei groesi. Mae hyn wedi digwydd bob blwyddyn ers i'r Gronfa Sefydlogrwydd y Farchnad ddechrau gweithredu oherwydd maint y gwarged yn SMA yr UE. Fel y cyfryw, mae nifer o lwfansau sy'n gyfwerth â 24% o gyfanswm nifer y lwfansau wedi cael eu didynnu o'r niferoedd ar gyfer arwerthiannau bob blwyddyn, dros gyfnod o 12 mis, a'u rhoi yn y gronfa wrth gefn.

Mae Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd yn delio â phroblemau strwythurol mwy hirdymor o gymharu â mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad eraill sy'n fwy priodol ar gyfer delio â phroblemau mwy byrdymor, megis newid sydyn mewn prisiau. Gall Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd hefyd roi lefel o sicrwydd i'r farchnad y bydd addasiadau i'r cyflenwad mewn ymateb i newid yn y galw, os caiff trothwyon eu croesi, yn digwydd mewn ffordd awtomataidd a rhagweladwy sy'n seiliedig ar reolau. Mae'n rhoi cadernid i'r cynllun gan olygu bod modd addasu'r cyflenwad yn wyneb digwyddiadau annisgwyl a allai achosi anwadalrwydd ac effeithio ar y signal pris carbon fel arall. Hefyd, mae'n llai agored i'r risg o ‘chwarae'r system’ na mecanweithiau eraill. Mae enghraifft Cronfa Sefydlogrwydd y Farchnad SMA yr UE wedi bod yn gymharol lwyddiannus o ran mynd i'r afael â phroblem yr anghydbwysedd cyflenwad strwythurol[12] yn y cynllun hwnnw.[13]

Dylid nodi bod Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd yn mynd i'r afael â risgiau mwy hirdymor o gymharu â mecanwaith a gaiff ei sbarduno gan brisiau (yn dibynnu ar ddyluniad yr ail o'r rhain) am ei fod yn gweithredu ar sail flynyddol a thros nifer o

[11] Mae rhagor o wybodaeth am Gronfa Sefydlogrwydd y Farchnad SMA yr UE i'w gweld yma: https://climate.ec.europa.eu/eu-action/eu-emissions-trading-system-eu-ets/market-stability-reserve_en

[12] Adolygiad ERCST o'r Gronfa Sefydlogrwydd y Farchnad: “Without the MSR in place, the TNAC would amount to over 4 billion by 2030, thus proving that the MSR is crucial to keep the TNAC under control. However, it remains to be seen whether the MSR is on track to bring the TNAC within the range of the thresholds.” https://ercst.org/wp-content/uploads/2021/04/20210429-Final-Paper.pdf

[13] Dylid nodi bod polisi ‘annilysu’ lwfansau hefyd wedi cael ei ddefnyddio fel ffordd o leihau'r gwarged mawr yn SMA yr UE yn ogystal â'r Gronfa Sefydlogrwydd y Farchnad.

fisoedd pan gaiff cyflenwad arwerthiannau ei addasu. Mesur o weithgarwch yn y gorffennol yw cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad ac felly mae'n bosibl nad hyn yw'r ffordd orau o ddelio'n brydlon â digwyddiadau annisgwyl a ddaw i'r amlwg neu a fydd yn digwydd yn y dyfodol.  Hefyd, gall effaith Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd ar brisiau fod yn llai sicr, ac anuniongyrchol, na sbardunau penodol sy'n seiliedig ar brisiau, a gall fod yn anodd canfod anghenion o ran ymddiogelu a'r galw ac ymddygiad yn y farchnad yn y dyfodol wrth i'r farchnad ddatblygu.

*Mecanweithiau addasu cyflenwad a gaiff eu sbarduno gan brisiau*

Mae mwy o fecanweithiau a gaiff eu sbarduno gan brisiau ar waith mewn systemau masnachu allyriadau rhyngwladol na mecanweithiau a gaiff eu sbarduno gan niferoedd. Er bod mecanweithiau a gaiff eu sbarduno gan brisiau yn addasu'r cyflenwad os caiff trothwyon pris eu cyrraedd, bydd yr ymyriad yn targedu lefelau pris yn benodol, boed yn uchel neu'n isel, neu'r naill a'r llall, yn dibynnu ar y dyluniad, yn hytrach na maint y gwarged lwfansau.

Gall mecanweithiau a gaiff eu sbarduno gan brisiau ymateb yn ystod y flwyddyn ac, felly, yn dibynnu ar y dyluniad, gallant ymateb yn gyflym yn y farchnad. Gall dull a gaiff ei sbarduno gan brisiau helpu i gadw pris lwfansau ar y farchnad o fewn ffug ystod benodol, ac felly mae'n debygol o leihau anwadalrwydd prisiau. Dylid nodi fodd bynnag mai dim ond hyd at y pwynt lle y caiff y cap ei gyrraedd y gellir rheoli'r risg ynghylch prisiau ar y pen uchaf, ac felly nid yw'n warant pris.

Serch hynny, mae'r Awdurdod yn ofalus i beidio â thorri ar draws yr egwyddor darganfod prisiau wrth ystyried natur Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan brisiau. Er bod addasu'r cyflenwad yn digwydd, mae hyn yn ddibynnol ar sbarduno trothwyon pris yn gyntaf, ac mae'n bosibl na fydd hynny'n digwydd. Byddai disgwyl i brisiau fod yn 'isel' pe bai gwarged sylweddol, neu'n 'uchel' pe bai prinder.

Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan brisiau fyddai'r offeryn polisi cywir pe bai'r risg yn gysylltiedig â phris yn benodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad hwn fyddai'r offeryn gorau ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau hirdymor newid yn y galw yn y cynllun, h.y. gwarged gormodol neu annigonol yn y cynllun.

Un enghraifft o awdurdodaeth system masnachu allyriadau ryngwladol sy'n defnyddio Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan brisiau yw California[14] sy'n defnyddio dwy haen brisiau yn ei SMA i liniaru prisiau 'uchel' lle y caiff lwfansau, oddi mewn i'r cap, eu rhyddhau i'w gwerthu pan fydd prisiau'n cyrraedd lefelau'r haenau hyn. Caiff mecanweithiau eraill a gaiff eu sbarduno gan brisiau ar gyfer mynd i'r afael â newidiadau sydyn ac annisgwyl mewn prisiau eu harchwilio ar wahân o dan Risgiau 2 a 3.

[14] Caiff nifer penodol o lwfansau oddi mewn i'r cap eu neilltuo bob blwyddyn mewn Cronfa Cyfyngu ar Brisiau Lwfansau (Cronfa) yn SMA California. Pan fydd arwerthiant chwarterol yn arwain at bris setlo sy'n fwy na neu'n hafal i 60% o bris haen isaf y Gronfa, caiff lwfansau eu cynnig drwy werthiant o'r Gronfa. Yn ystod 2021 – 2030, caiff lwfansau yn y Gronfa eu cynnig ar ddwy haen brisiau, y bydd y naill a'r llall yn cynyddu 5% yn ogystal â chwyddiant bob blwyddyn. Bydd rheoliadau'n pennu nifer y lwfansau a gaiff eu cynnig ar bob haen. https://ww2.arb.ca.gov/our-work/programs/cap-and-trade-program/cost-containment-information

# Asesiad yr Awdurdod

Yn dilyn yr asesiad uchod o'r mecanweithiau a gaiff eu sbarduno gan brisiau a niferoedd **mae Awdurdod CMA y DU o blaid rhoi Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd ar waith.** Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r risg o newidiadau yn y galw sy'n arwain at warged gormodol neu annigonol sylweddol a pharhaus sy'n andwyol i weithrediad y farchnad ac amcanion datgarboneiddio sylfaenol y cynllun. Gall Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd fod yn fwy effeithiol na Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan brisiau o ran mynd i'r afael â'r risg o newid yn y galw am ei fod yn targedu'r cyflenwad yn benodol. Felly, mae'n ymddangos ei fod yn cynnig dull priodol o liniaru'r risg uchod yn y farchnad mewn modd rhagweladwy. Mae'r Atodiad Dadansoddol[15] yn cynnwys rhagor o fanylion am weithrediad Mecanwaith Addasu Cyflenwad, gan gynnwys ffyrdd posibl o ryngweithio â'r mecanweithiau sydd eisoes ar waith (Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau a Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau).

Mae'r Awdurdod yn nodi bod mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad yn cynrychioli cyfres o bolisïau, a nodir mesurau sy'n ymwneud yn fwy penodol â phrisiau ar gyfer mynd i'r afael â gwahanol risgiau yn y penodau sy'n trafod gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau a chynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau. Mae nifer o randdeiliaid wedi mynegi eu barn ar Fecanwaith Addasu Cyflenwad yn glir ond, er mwyn llywio'r safbwynt hwn, rydym yn ceisio barn pob rhanddeiliad a thystiolaeth ehangach er mwyn cefnogi meysydd llunio polisïau allweddol.

Dylid nodi nad penderfyniad terfynol yw hwn. Bydd penderfyniadau terfynol yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn a gwaith dadansoddi mewnol pellach.

| Cwestiynau |
| --- |
| 3. Ydych chi'n credu y byddai'n fuddiol i CMA y DU pe bai Mecanwaith Addasu Cyflenwad yn cael ei gyflwyno er mwyn mynd i'r afael â newid yn y galw sy'n arwain at risg o effeithiau hirdymor? (Ydw/Nac ydw). Esboniwch y rhesymau dros eich ymateb.<br><br>4. Os felly, ai a) Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd neu b) Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan brisiau fyddai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r risg hon yn eich barn chi? Rhowch eich rhesymau dros eich dewis a'ch ymateb.<br><br>5. Ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Awdurdod o blaid cyflwyno Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd? (Ydw/Nac ydw). Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb. |

[15] Gweler 'Adran 2: Sefyllfa wrthffeithiol ac opsiynau' yn yr Atodiad Dadansoddol

# Opsiynau manwl ar gyfer llunio polisïau

Os bydd yr Awdurdod yn penderfynu bwrw ymlaen â Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd, byddai angen cytuno ar sawl nodwedd dylunio a'u deall cyn ei roi ar waith.

## Cyfrifo cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn CMA y DU

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, y nodwedd sy'n dangos nifer y lwfansau sydd wedi cronni ac sy'n cylchredeg mewn cynllun yw cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad. Mae'r Awdurdod yn cynnig y dylai cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn CMA y DU gael ei fesur fel a ganlyn:

| |
|---|
| Cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad = Cyflenwad (Dyraniadau am ddim hyd yma + Niferoedd mewn arwerthiannau hyd yma) – Galw (Allyriadau wedi'u dilysu bob blwyddyn hyd yma) |

Mae'r dull hwn yn galluogi'r Awdurdod a chyfranogwyr i ddeall faint o warged sydd yn y cynllun o flwyddyn i flwyddyn o gymharu â'r galw.

| Cwestiynau |
|---|
| 6. Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o gyfrifo cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn CMA y DU? (Ydw/Nac ydw). Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.<br>7. Os ydych chi'n anghytuno â'r dull arfaethedig, awgrymwch ddull amgen a'ch sail resymegol dros hyn. |

## Lefel briodol trothwy niferoedd sbarduno uchaf ac isaf

Un elfen allweddol wrth ddylunio Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd yw penderfynu ar lefel briodol y trothwyon sbarduno uchaf ac isaf. Bydd hyn yn pennu pa mor ymatebol fydd y Mecanwaith Addasu Cyflenwad a, thrwy oblygiad, pa mor aml y bydd y niferoedd mewn arwerthiannau'n lleihau, yn cynyddu, neu'n aros yr un fath os na chaiff trothwyon eu cyrraedd. Gweler yr Atodiad Dadansoddol sy'n cynnwys rhagor o ddata a chyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad, y gall fod yn ddefnyddiol ei ddarllen ochr yn ochr â'r adran hon.[16]

Wrth benderfynu ar lefel y trothwyon, bydd angen ystyried diffinio lefel ‘iach’ o warged. Dylai'r penderfyniad hwn helpu'r farchnad i weithredu'n effeithiol o ddydd i ddydd, ac ystyried beth fyddai'n gyfystyr â gwarged ‘problemus’, boed yn ormodol neu'n annigonol, yn ogystal â'r hyn a

[16] Mae'r Atodiad Dadansoddol yn cynnwys data ar allyriadau, dyrannu am ddim, a niferoedd mewn arwerthiannau, a gall fod yn ddefnyddiol ei ddarllen wrth ystyried trothwyon sbarduno, yn ogystal â chyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn 2021 a 2022 ar dudalen 22 (os caiff lwfansau eu hildio ar ddiwedd y flwyddyn yn hytrach nag ar ddiwedd y mis Ebrill canlynol).

all achosi gwarged o'r fath. Er enghraifft, gall y math hwn o warged adlewyrchu effeithiau digwyddiad economaidd annisgwyl neu leihad sylweddol annisgwyl mewn allyriadau yn sgil defnyddio technolegau lleihau allyriadau gan achosi newidiadau yn y galw dros y tymor hir.

Yn seiliedig ar hynny, mae'r Awdurdod yn ystyried trothwyon a gaiff eu sbarduno gan niferoedd a fyddai ond yn cael eu sbarduno gan warged sylweddol a phroblemus (h.y. gormodol neu annigonol). Byddai hyn yn osgoi addasiadau i'r cyflenwad sy'n digwydd fel mater o drefn neu yn sgil amrywiadau byrhoedlog yn y galw.

| Cwestiynau |
| --- |
| 8. Beth yw eich barn ar ba lefel o warged sy'n gyfystyr ag a) lefel optimaidd o warged yn y cynllun, a fyddai'n galluogi'r farchnad i weithredu'n effeithiol a b) sut y gellid asesu hyn gan gynnwys o ran methodoleg? Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich ymateb.<br><br>9. A oes gennych farn ar ba lefel y dylai'r a) trothwy niferoedd sbarduno uchaf a b) trothwy niferoedd sbarduno isaf fod mewn Mecanwaith Addasu Cyflenwad yn CMA y DU? (Oes/Nac oes). Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i ategu eich ymateb.<br><br>10. Pa mor ymatebol y dylai'r trothwyon uchaf ac isaf fod, er enghraifft a ddylai fod gan bob trothwy raddfa symudol ar gyfer addasu cyflenwad? Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i ategu eich ymateb. |

## Mathau o drothwyon sbarduno: trothwyon sefydlog, absoliwt neu drothwyon cymharol

Un ystyriaeth bellach ar gyfer Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd fydd natur y trothwyon sbarduno, a ph'un a ddylent gael eu pennu fel gwerthoedd sefydlog absoliwt neu fel gwerthoedd cymharol. Gallai hyn fod fel a ganlyn:

a) Gwerthoedd sefydlog, absoliwt tan 2030 h.y. gwerthoedd sefydlog ar gyfer Cam 1. Byddai hyn yn golygu y caiff y Mecanwaith Addasu Cyflenwad ei ysgogi os cyfrifir bod cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn uwch neu'n is na gwerthoedd y trothwyon uchaf ac isaf sefydlog hynny.

b) Trothwyon gwerth cymharol. Gellid mesur hyn fel cyfran o un o'r canlynol:
   i) lefel y cap blynyddol
   ii) y niferoedd blynyddol mewn arwerthiannau

Gweler yr Atodiad am fanylion lefel y cap a'r niferoedd mewn arwerthiannau ar gyfer y sectorau presennol hyd at ddiwedd Cam 1.

**Mae'r Awdurdod o blaid cyflwyno trothwyon cymharol sy'n ymatebol i ostyngiad yn y cap neu leihad yn y niferoedd mewn arwerthiannau.**

Mae pennu trothwyon cymharol yn ddewis rhesymegol, gan na fyddai trothwy sefydlog yn ymateb i newidiadau yn y cyflenwad o lwfansau. Mae hyn yn rhesymegol o ystyried proffil arfaethedig y cap ar gyfer y sectorau presennol, ond hefyd effaith ychwanegu sectorau newydd yn ystod y 2020au.

| Cwestiynau |
| --- |
| 11. A yw'r Awdurdod wedi nodi'r holl fathau o sbardunau y dylid eu hystyried; neu a oes mathau eraill o drothwyon sbarduno y dylid eu hystyried? Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.<br><br>12. Ydych chi'n cytuno y byddai trothwyon sbarduno cymharol yn fwy priodol na throthwyon sefydlog absoliwt? (Ydw/Nac ydw). Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.<br><br>13. Os ydych yn cytuno, beth sydd orau gennych – gwerthoedd trothwy sbarduno cymharol a) fel cyfran o gap blynyddol CMA y DU neu b) sy'n berthynol i'r niferoedd blynyddol mewn arwerthiannau? |

## Newid yn y niferoedd mewn arwerthiannau ar ôl i'r Mecanwaith Addasu Cyflenwad gael ei ysgogi

Os caiff y Mecanwaith Addasu Cyflenwad ei ysgogi, yna byddai'r cyflenwad mewn arwerthiannau'n cael ei addasu drwy gynyddu neu leihau nifer y lwfansau y gellir eu harwerthu. Wrth benderfynu ar faint yr addasiad hwn, bydd angen ystyried cydbwysedd y niferoedd mewn arwerthiannau sy'n weddill, ar sail yr effaith ar y ddynameg rhwng y cyflenwad a'r galw. Felly, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd ystyried maint newid mewn niferoedd yn ofalus, a'r effeithiau y bydd hyn yn eu cael ar gyfranogwyr a'r farchnad.

Gellid cyfrifo'r addasiad fel cynnydd neu leihad canrannol (neu gyfrannol) yn y niferoedd mewn arwerthiannau ar gyfer y flwyddyn berthnasol, addasiad ar sail nifer penodol o lwfansau, neu gyfuniad o'r ddau. Gallai'r addasiad i'r niferoedd mewn arwerthiannau fod yn fetrig unigol a gaiff ei ddefnyddio yn union yr un ffordd ar gyfer lleihad neu gynnydd yn nifer y lwfansau y gellir eu harwerthu.

| Cwestiynau |
| --- |
| 14. Beth yw eich barn ar beth ddylai'r lefel briodol o addasiad i'r niferoedd mewn arwerthiannau fod? Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i ategu eich ymateb.<br><br>15. A oes gennych farn ar b'un a ddylai'r addasiad hwn fod ar sail canran o'r niferoedd blynyddol mewn arwerthiannau, ffigur sefydlog arall, cyfuniad o'r ddau, neu unrhyw fetrig arall? Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb. |

## Amseriadau gweithredol Mecanwaith Addasu Cyflenwad os caiff ei sbarduno


Byddai gennym broses glir sy'n seiliedig ar reolau ac sy'n rhagweladwy ac yn hawdd ei deall i gyfranogwyr pe bai Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd yn cael ei roi ar waith yn CMA y DU.

Byddai angen penderfynu ar yr amseriad gorau ar gyfer cylch gweithredu Mecanwaith Addasu Cyflenwad. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Mecanwaith Addasu Cyflenwad yn gweithredu ar sail cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad (cyfrifiad blynyddol sy'n mesur y cyflenwad a'r galw cronnol yn y cynllun).

Dim ond ar ôl y terfyn amser ildio lwfansau ar ddiwedd mis Ebrill at ddibenion cydymffurfio mewn perthynas â blwyddyn galendr flaenorol y cynllun y bydd y galw'n hysbys (er gwaethaf amcangyfrifon o gyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad). Felly, byddai'n rhesymegol i gyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad gael ei gyfrifo ar ôl y terfyn amser cydymffurfio. Cynigir y byddai cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn yn y gwanwyn ar ôl y terfyn amser cydymffurfio er mwyn rhoi tryloywder cynnar i gyfranogwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb. Pan fydd cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn hysbys, bydd yn amlwg a fydd trothwyon uchaf neu isaf wedi cael eu sbarduno. Os felly, byddai angen addasu arwerthiannau dros gyfnod o amser. Gellid gwneud hyn o fis Gorffennaf (neu fis arall wedi hynny mewn un flwyddyn) tan fis Mehefin (neu fis arall wedi hynny yn y flwyddyn ganlynol), er enghraifft.

Dros y cyfnod hwn, dylai hefyd fod yn bosibl sicrhau y bydd nifer y lwfansau i'w harwerthu wedi'i ddosbarthu'n lled gyfartal yn ystod y cyfnod 12 mis.

Nid yw'r Awdurdod yn credu y bydd modd gwneud addasiadau i arwerthiannau yn gynt na hynny oherwydd y terfyn amser ildio er mwyn cydymffurfio ym mis Ebrill a'r angen i wirio data ar allyriadau.




| Cwestiynau |
|---|
| 16. Ydych chi'n cytuno â'r amseriad arfaethedig ar gyfer cyhoeddi cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad, sef ar ôl y terfyn amser cydymffurfio yn y gwanwyn? (Ydw/Nac ydw). Os nad ydych yn cytuno, esboniwch eich rhesymau.<br><br>17. Beth yw eich barn ar amseriadau ar gyfer addasu'r cyflenwad mewn arwerthiannau os caiff y Mecanwaith Addasu Cyflenwad ei ysgogi? Rhowch fanylion yr amseriadau sydd orau gennych a'r sail resymegol dros hyn.<br><br>18. Os bydd angen addasu'r niferoedd mewn arwerthiannau am fod y Mecanwaith Addasu Cyflenwad wedi'i ysgogi, ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod ymdrechu i sicrhau y bydd nifer y lwfansau i'w harwerthu wedi'i ddosbarthu'n lled gyfartal yn ystod y cyfnod y bydd yr addasiad hwn yn effeithio arno? (Ydw/Nac ydw). Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb. |

## Amseriad cyflwyno unrhyw Fecanwaith Addasu Cyflenwad posibl i CMA y DU

Wrth ystyried yr amseriad ar gyfer rhoi unrhyw Fecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd ar waith yn y cynllun, blaenoriaeth yr Awdurdod yw sicrhau y bydd y cynllun yn parhau i weithredu'n esmwyth a chynnal sicrwydd a rhagweladwyedd i gyfranogwyr. Un ffactor pwysig arall yw sicrhau y byddai'r farchnad, cyfranogwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael digon o rybudd ac eglurder ynglŷn â gweithrediad y Mecanwaith Addasu Cyflenwad cyn iddo gael ei roi ar waith.

| Cwestiynau |
|---|
| 19. Yn eich barn chi, pryd, h.y. ym mha un o flynyddoedd y cynllun, y dylai unrhyw Fecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd gael ei roi ar waith yn CMA y DU, gan olygu y byddai'r Mecanwaith Addasu Cyflenwad yn dechrau gweithredu y flwyddyn ganlynol ar ôl y cyfnod cydymffurfio? Esboniwch eich rhesymau dros eich ymateb. |

## Rhyngweithio â pholisi marchnadoedd ehangach

Os caiff Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd ei roi ar waith, ni fydd modd ei ddylunio ar wahân i bolisïau marchnadoedd eraill CMA y DU. Bydd angen rhoi ystyriaeth ddyledus i ffyrdd y gallai unrhyw fecanweithiau ac opsiynau ehangach, sy'n cael eu hystyried fel y'u nodir ym mhenodau Risg 2 a Risg 3, ryngweithio â Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd. Bydd hyn yn sicrhau y gellir asesu'r dirwedd o ran polisïau marchnadoedd mewn modd cyfannol.

Mae Tabl 2 yn yr Atodiad Dadansoddol yn cynnwys manylion gorgyffwrdd, effeithiau a rhyngweithio rhwng opsiynau polisi sy'n cael eu hystyried gan gynnwys Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd, Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau a Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau.

| Cwestiynau |
|---|
| 20. A oes gennych farn ar y rhyngweithio rhwng unrhyw Fecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd a'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau a'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau?  Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i ategu eich ymateb. |

# Risg 2: Gostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau

## Trosolwg

Mewn cynllun sy'n seiliedig ar farchnadoedd megis CMA y DU, mae amrywiadau mewn prisiau'n gynhenid ac yn rhywbeth i'w groesawu. Nid fydd gostyngiad mewn prisiau ym marchnadoedd CMA y DU yn destun pryder fel arfer. Fodd bynnag, os bydd prisiau'n gostwng yn sydyn, yn sylweddol ac yn barhaus, gall hynny atal signal effeithiol o blaid datgarboneiddio.

Mae'r bennod hon yn archwilio'r opsiynau y mae'r Awdurdod wedi'u nodi ar gyfer lliniaru'r risg o ostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau, a ddiffinnir fel a ganlyn:

- Sydyn – mae'r pris yn gostwng dros gyfnod byr.
- Sylweddol – mae'r gostyngiad yn y pris naill ai a) yn wyriad sylweddol oddi wrth ystodau masnachu diweddar, neu b) yn cyrraedd lefel sy'n rhy isel.
- Parhaus – mae'r pris yn parhau i ostwng am gyfnod sy'n ddigon hir i hynny ddechrau cael effaith sylweddol ar ymddygiadau masnachu a datgarboneiddio gweithredwyr yn y farchnad.

Ceir rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y risg o ostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau a'r risg o warged gormodol neu annigonol. Gallai nifer o'r ffactorau a allai arwain at ostyngiad sydyn mewn prisiau, e.e. dirywiad economaidd sy'n arwain at lai o allbwn ac allyriadau blynyddol, hefyd arwain at gynnydd ym maint y gwarged.

Fodd bynnag, mae'r risg hon yn ymwneud â datblygiadau byrdymor mewn prisiau, ac mae'n bosibl na chaiff ei lliniaru'n effeithiol gan fecanweithiau sy'n ymateb i newidiadau yng ngwarged y farchnad ac sy'n gweithredu dros gyfnod hwy. Fel y cyfryw, mae'n bosibl y bydd angen mecanweithiau amgen i fynd i'r afael â hyn.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried rhinweddau cymharol pob opsiwn ac yn ceisio barn ar ba mor addas yw pob un ohonynt ar gyfer mynd i'r afael â'r risg a nodwyd. Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried sut y gallai'r opsiynau hyn ryngweithio â Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd, yn unol â'r safbwynt y mae'r Awdurdod o'i blaid.

## Opsiynau polisi

Isod ceir rhestr o fecanweithiau polisi sydd wedi cael eu rhoi ar waith mewn marchnadoedd systemau masnachu allyriadau rhyngwladol a/neu eu trafod mewn llenyddiaeth academaidd a all liniaru'r risg hon o bosibl. Ymhlith yr opsiynau hyn mae: mecanweithiau sy'n pennu isafswm pris ar gyfer arwerthiannau (e.e. Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau CMA y DU), mecanweithiau

sy'n pennu terfyn isaf ‘caled’ ar brisiau, a mecanweithiau sy'n lleihau'r cyflenwad yn seiliedig ar ddatblygiadau mewn prisiau yn y farchnad (e.e. Cronfa Cyfyngu ar Allyriadau).

## Y polisi presennol – Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau

Fel y trafodwyd yn y bennod “Polisi Marchnadoedd Presennol”, mae'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau'n atal lwfansau rhag cael eu gwerthu mewn arwerthiannau am lai na £22 a dim ond os bydd nifer o arwerthiannau'n methu yn olynol y gall effeithio ar y cyflenwad o lwfansau – y rheswm dros hyn yw y bydd lwfansau heb eu gwerthu'n cael eu hailddyrannu i arwerthiannau eraill i ddechrau, hyd at 125% o'u niferoedd gwreiddiol.

Gyda Phris Cadw ar gyfer Arwerthiannau ar waith, pe bai prisiau'n gostwng yn sydyn ym marchnad CMA y DU gan beri i brisiau yn y farchnad eilaidd ostwng yn is na lefel y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau, mae'n debygol y byddai'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau'n parhau i gael ei sbarduno nes i'r broses o dynnu lwfansau o'r farchnad greu cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw sy'n codi'r prisiau'n ôl uwchlaw £22. Drwy wneud hyn, byddai'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau'n gweithredu fel ‘terfyn isaf meddal ar brisiau’ ym mhob rhan o farchnad CMA y DU, gan helpu i gadw prisiau ar y lefel sbarduno dros y tymor hir.

Drwy'r cais am dystiolaeth ar Bolisi Marchnadoedd yn yr Ymgynghoriad Datblygu, casglodd yr Awdurdod amrywiaeth o safbwyntiau rhanddeiliaid ar ddyfodol y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau.

- Roedd llawer o ymatebwyr o blaid cael gwared ar y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau, a hynny'n bennaf am eu bod yn credu ei fod yn ddiangen am fod pris carbon wedi bod yn sylweddol uwch na lefel y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yn gyson.

- Fodd bynnag, roedd sawl rhanddeiliad yn erbyn y syniad o gael gwared ar y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau, gan gyfeirio at y sicrwydd y mae'n ei roi i'r farchnad a'i allu i liniaru isafbwyntiau eithafol mewn prisiau.

- Dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylai'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau gael ei ddisodli gan Fecanwaith Addasu Cyflenwad.

Barn yr Awdurdod yw bod nifer o fanteision i'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau. Mae'n opsiwn polisi ar gyfer rheoli'r risg hon y mae cyfranogwyr y farchnad yn gyfarwydd ag ef. Mae'r ‘terfyn isaf meddal ar brisiau’ yn rhoi isafswm pris hirdymor â hyder uchel i fuddsoddwyr a chyfranogwyr y farchnad yn achos unrhyw ostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau. Mae'n galluogi grymoedd y farchnad a phrosesau darganfod prisiau i barhau er mwyn pennu pris CMA y DU yn y farchnad eilaidd – mae hyn yn galluogi cyfranogwyr y farchnad i barhau i ddarganfod prisiau ac adlewyrchu unrhyw ostyngiad yn y cyflenwad o ganlyniad i'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau ym mhris lwfansau.

Fodd bynnag, mae gan fecanwaith y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau rai anfanteision/cyfyngiadau hefyd. Pan gaiff ei sbarduno, nid yw'r Pris Cadw ar gyfer

Arwerthiannau'n lleihau'r cyflenwad yn awtomatig gan fod lwfansau'n cael eu hailddyrannu i'r pedwar arwerthiant nesaf i ddechrau. Mae hyn yn golygu y byddai'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau'n effeithio ar y cyflenwad yn raddol dros nifer o arwerthiannau ac felly na fyddai ei effaith ar y farchnad yn glir ar unwaith – gall hyn arwain at fwy o anwadalrwydd yn y farchnad wrth i gyfranogwyr geisio cyfrifo neu ragweld beth fyddai'r canlyniad terfynol o ran y cyflenwad. Mae'n debygol y bydd y lleihad graddol yn y cyflenwad am fod arwerthiannau olynol wedi methu â chlirio'n llawn oherwydd y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yn cadw prisiau ar lefel y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau heb achosi cynnydd mewn prisiau, gan na fyddai'r mecanwaith yn effeithio ar y cyflenwad a'r galw mwyach ar ôl i'r arwerthiannau ddechrau clirio'n llawn eto. Felly, un o gyfyngiadau'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yw y gall yr amddiffyniad a gynigir ganddo gadw prisiau ar y trothwy sbarduno neu fymryn yn uwch na hynny mewn senarios eithafol, a all fod yn fodd i amodau andwyol yn y farchnad barhau.

Hefyd, fel y nodir yn y bennod “Polisi Marchnadoedd Presennol”, cafodd y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau ei gyflwyno'n wreiddiol fel mesur dros dro i roi sefydlogrwydd yn ystod blynyddoedd cynnar CMA y DU, ac mae'r Awdurdod wedi dweud ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i'w ddefnyddio'n raddol wrth i'r cynllun aeddfedu.

Mae'r Awdurdod yn credu bod y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yn fecanwaith polisi effeithiol er mwyn lliniaru'r risg hon ac mae'n awyddus i'w archwilio ymhellach, gan adlewyrchu'r adborth gan randdeiliaid yn y cais am dystiolaeth.

## Terfyn isaf absoliwt ar brisiau

Mecanwaith polisi sy'n gweithredu gyda'r bwriad o gadw prisiau ar draws y marchnadoedd uwchlaw lefel prisiau benodedig yw terfyn isaf absoliwt ar brisiau. Un enghraifft o'r mecanwaith hwn ar waith yw'r terfyn isaf ar brisiau yn cael ei roi ar waith yn CMA peilot Beijing.

Yn gyffredinol, bydd terfyn isaf ar brisiau'n rheoli prisiau yn uniongyrchol ym mhob rhan o'r farchnad – y farchnad sylfaenol (arwerthiannau) a'r farchnad eilaidd. Bydd yr awdurdod llywodraethu'n cyflawni hyn drwy beidio â gwerthu lwfansau islaw lefel y trothwy mewn arwerthiannau a hefyd drwy brynu lwfansau yn ôl ar lefel y trothwy neu'n uwch na hynny yn y farchnad eilaidd. Os bydd prisiau'n gostwng islaw lefel y trothwy, caiff y terfyn isaf ar brisiau ei sbarduno a bydd yr awdurdod llywodraethu'n ymyrryd ac yn prynu cyfran o lwfansau yn ôl nes y bydd y prisiau'n dychwelyd i werth uwchlaw'r terfyn isaf. Bydd hyn yn sicrhau isafswm pris gwarantedig ar allyrru nwyon tŷ gwydr i gyfranogwyr y farchnad.

Bydd terfyn isaf absoliwt ar brisiau yn sicrhau isafswm penodol ar gyfer lefel y prisiau, gan leihau'r risg sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau mewn datgarboneiddio a helpu gweithredwyr a buddsoddwyr i'w hariannu a'u rhoi ar waith.

Fodd bynnag, gan mai'r signal pris hirdymor sy'n cymell datgarboneiddio yn bennaf, ychydig iawn o fantais ychwanegol a geir drwy atal y pris rhag gostwng islaw'r lefel sbarduno o gymharu â mecanweithiau eraill, megis y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau, sy'n creu terfyn isaf “meddal” ar brisiau a sicrwydd hirdymor â hyder uchel ynghylch isafswm pris.

Hefyd, mae nifer o anfanteision posibl yn gysylltiedig â therfynau isaf absoliwt ar brisiau:

- Bydd terfyn isaf ar brisiau'n atal dynameg y farchnad a phroses darganfod prisiau yn y farchnad eilaidd os bydd prisiau'n cyrraedd lefel y terfyn isaf, gan rwystro'r farchnad rhag parhau i adlewyrchu newidiadau i'r cyflenwad ym mhrisiau lwfansau.
- Er mwyn ymyrryd yn y farchnad yn y ffordd sy'n ofynnol i gynnal y terfyn isaf ar brisiau, gallai fod angen cryn dipyn o gyfalaf a gallai hynny fod yn anghynaliadwy i'r Awdurdod dros gyfnod estynedig.
- Gallai'r canfyddiad bod yr Awdurdod yn prynu lwfansau yn ôl am brisiau isel a'u hailwerthu am brisiau uwch danseilio ei hygrededd, gan beryglu ei enw da.
- Dim ond cynnal prisiau ar lefel y trothwy heb beri iddynt gynyddu y bydd terfyn isaf ar brisiau yn ei wneud. Er y bydd hyn yn atal prisiau rhag gostwng ymhellach, gallai olygu y bydd amodau andwyol yn y farchnad yn parhau os bydd y lefel sbarduno wedi'i gosod ar bris isel.

Ym marn yr Awdurdod, nid yw'r cynnydd bach mewn sicrwydd ynghylch isafswm pris o gymharu ag opsiynau eraill yn drech na'r anfanteision sy'n gysylltiedig â rhoi terfyn isaf absoliwt ar brisiau ar waith.

## Terfyn isaf dros dro ar brisiau

Mae terfyn isaf dros dro ar brisiau yn bolisi sydd wedi cael ei roi ar waith yn CMA De Korea ac mae'n gweithredu'n debyg i'r terfyn isaf ar brisiau ac eithrio'r ffaith mai ymyriad yn y farchnad am gyfnod cyfyngedig ydyw. Mae wedi cael ei ddefnyddio i sefydlogi CMA De Korea ar ôl i brisiau gyrraedd y lefelau isaf erioed, fel ym mis Ebrill 2021 a mis Gorffennaf 2023. Awdurdod CMA De Korea sy'n penderfynu pryd i ymyrryd.

Mae'r terfyn isaf dros dro ar brisiau hefyd yn rheoli prisiau yn CMA De Korea yn uniongyrchol. Caiff ei ysgogi pan fydd pris cyfartalog lwfansau yn y farchnad yn ystod mis penodol yn is na 60% o'r pris cyfartalog dros y ddwy flynedd flaenorol[17]. Gall y terfyn isaf dros dro ar brisiau aros mewn grym am hyd at fis, ond gellir cael gwared arno'n gynt hefyd os bydd prisiau Uned Lwfans Koreaidd yn codi 10% neu fwy uwchlaw'r terfyn isaf am bum diwrnod yn olynol.

Gan fod y terfyn isaf dros dro ar brisiau'n gweithredu mewn ffordd debyg i derfyn isaf absoliwt ar brisiau, gellir cymharu eu manteision a'u hanfanteision.

Prif fantais terfyn isaf dros dro ar brisiau yn hytrach na therfyn isaf absoliwt yw'r ffaith mai terfyn am gyfnod cyfyngedig ydyw, sy'n golygu y bydd yn gosod cyfyngiad ar faint o ymyriad y bydd ei angen gan yr awdurdod llywodraethu er mwyn cynnal y terfyn isaf ar brisiau.

Fodd bynnag, mae'r ffaith mai dim ond am gyfnod cyfyngedig y mae'r terfyn isaf ar brisiau'n para yn golygu nad yw'n rhoi sicrwydd hirdymor cyfatebol ynghylch isafswm prisiau o gymharu â'r terfyn isaf absoliwt.

[17] Cynllun Masnachu Allyriadau Korea: https://www.adb.org/sites/default/files/publication/469821/korea-emissions-trading-scheme.pdf

## Cronfa Cyfyngu ar Allyriadau

Mecanwaith polisi sydd â'r nod o dynnu nifer o lwfansau o'r cyflenwad ar gyfer arwerthiannau yn awtomatig pan fydd pris lwfansau mewn arwerthiannau'n gostwng islaw pris sbarduno yw Cronfa Cyfyngu ar Allyriadau. Mae hyn yn gweithio yn yr un ffordd â throthwy isaf Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan brisiau, fel y gwelir yn y bennod ar Risg 1.

Ar hyn o bryd, caiff Cronfa Cyfyngu ar Allyriadau ei defnyddio yn y Fenter Nwyon Tŷ Gwydr Ranbarthol (RGGI)[18], ar y cyd â Phris Cadw ar gyfer Arwerthiannau (a elwir yn Derfyn Isaf ar Brisiau mewn Arwerthiannau yn yr RGGI).

Nid yw Cronfa Cyfyngu ar Allyriadau'n cael effaith uniongyrchol ar brisiau lwfansau, h.y. nid yw'n rheoli prisiau yn y farchnad sylfaenol na'r farchnad eilaidd. Yn hytrach na hynny, mae'n ceisio cael effaith anuniongyrchol ar brisiau drwy newid y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw – gallai lleihad yn y cyflenwad (heb newid yn y galw) arwain at gynnydd mewn prisiau ac atal unrhyw ostyngiad pellach mewn prisiau.

Yn wahanol i'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yn CMA y DU, ni fwriedir i'r lwfansau a gaiff eu tynnu o'r cyflenwad gan y Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau fod ar gael i'w gwerthu yn y dyfodol. Felly, caiff lwfansau eu tynnu o'r cap cyffredinol i bob pwrpas. Cafodd y mecanwaith hwn ei ddatblygu er mwyn gwneud cap yr RGGI yn fwy llym pe bai cost lwfansau'n is na'r disgwyl.

O dan y Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau, caiff lwfansau eu dal yn ôl o arwerthiannau os bydd prisiau lwfansau'n gostwng islaw pris sbarduno y cytunwyd arno. Yn yr RGGI, bydd y pris sbarduno hwn yn cynyddu 7% y flwyddyn. Mae nifer y lwfansau y gellir eu tynnu o'r cyflenwad wedi'i gyfyngu i 10% o gyllidebau allyriadau blynyddol y taleithiau sy'n cymryd rhan.

Gall mecanwaith tebyg i'r Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau weithredu fel grym cywirol, gan hybu cynnydd mewn prisiau os byddant yn croesi'r trothwy sbarduno. Gallai hyn beri i brisiau ddychwelyd i ystod fasnachu uwch. Os mai dim ond pan fydd amodau'r farchnad yn eithafol y bwriedir i'r mecanwaith hwn gael ei sbarduno, mae'n bosibl y bydd effaith gywirol yn fwy dymunol na chynnal prisiau. Mae sbardun ac ymyriad y mecanwaith hwn yn syml ac yn dryloyw, gan ei gwneud yn haws i'r farchnad ddeall pryd y caiff y Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau ei sbarduno a beth fyddai'r effaith ar y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw.

Fodd bynnag, anfantais y Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau yw nad yw'n cynnig yr un lefel o sicrwydd â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau o ran isafswm pris hirdymor ar gyfer lwfansau oherwydd, os bydd nifer y lwfansau a gaiff eu tynnu o'r cyflenwad gan y Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau yn annigonol i gynyddu prisiau, gallai prisiau lwfansau barhau i ostwng.

Fel y caiff ei ddefnyddio yn yr RGGI, mae'r mecanwaith yn newid cap effeithiol y cynllun am na chaiff y lwfansau a dynnir o'r cyflenwad eu rhoi ar werth eto wedyn[19]. Am fod yr Awdurdod am sicrhau bod mecanweithiau'r farchnad yn diogelu uniondeb cap CMA y DU, dylai'r defnydd o fecanwaith tebyg i'r Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau yn CMA y DU dynnu lwfansau allan a'u rhoi

[18] https://www.rggi.org/program-overview-and-design/elements
[19] ICAP, USA - Regional Greenhouse Gas Initiative (RGGI), https://icapcarbonaction.com/en/ets/usa-regional-greenhouse-gas-initiative-rggi

mewn cronfa wrth gefn a byddai angen sefydlu rheolau clir ar gyfer ailgyflwyno lwfansau a dynnwyd allan yn ôl i'r farchnad.

## Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau Gwrthdro

Byddai Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau Gwrthdro yn gweithredu fel Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau CMA y DU ond ar gyfer gostyngiad mewn prisiau yn hytrach na chynnydd mewn prisiau. Ar hyn o bryd, nid oes enghreifftiau o fecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad sy'n gwrthweithio gostyngiad parhaus annisgwyl mewn prisiau mewn ffordd debyg i'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn hytrach na gwrthweithio prisiau islaw trothwy absoliwt penodol.

Byddai Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau Gwrthdro yn gweithredu mewn ffordd debyg i fecanwaith tebyg i Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau, a'r prif wahaniaeth fyddai bod gan fecanwaith tebyg i Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau lefel trothwy prisiau sefydlog ond byddai lefel trothwy Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau Gwrthdro yn dibynnu ar brisiau cyfartalog hanesyddol.

Felly, byddai trothwy sbarduno Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn cael ei bennu ar sail lluosydd rhagddiffiniedig o brisiau cyfartalog y CMA dros gyfnod sylfaen, a byddai'n cael ei sbarduno pe bai'r prisiau'n gostwng islaw'r trothwy hwn dros gyfnod sbarduno penodedig.

O dan Fecanwaith Cyfyngu ar Gostau Gwrthdro, gallai'r Awdurdod ymyrryd yn y farchnad yn ôl ei ddisgresiwn, yn yr un modd â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau presennol. Pe bai sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau Gwrthdro'n arwain at ymyriad, tynnu nifer o lwfansau o'r cyflenwad ar gyfer arwerthiannau fyddai'r ymyriad hwnnw.

Ni fyddai Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau Gwrthdro sydd wedi'i ddylunio fel hyn yn rheoli prisiau lwfansau yn y farchnad eilaidd yn uniongyrchol, yn debyg i'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau a'r Gronfa Cyfyngu ar Allyriadau. Yn hytrach na hynny, byddai'n ceisio cael effaith anuniongyrchol ar brisiau drwy newid y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw – gallai lleihad yn y cyflenwad (heb newid yn y galw) arwain at gynnydd mewn prisiau ac atal unrhyw ostyngiad pellach mewn prisiau.

Prif fantais mecanwaith tebyg i Fecanwaith Cyfyngu ar Gostau Gwrthdro yw y byddai, drwy bennu'r sbardun yn seiliedig ar ystod/cyfartaledd masnachu hanesyddol, yn galluogi Awdurdod i ymyrryd mewn ffordd sy'n targedu gostyngiad sydyn mewn prisiau yn benodol yn hytrach nag un a gaiff ei sbarduno gan lefel prisiau benodol, p'un a yw'r pris wedi gostwng yn raddol neu'n gyflym. Byddai unrhyw lwfansau'n cael eu tynnu o'r cyflenwad (os bydd yr Awdurdod yn penderfynu ymyrryd) yn gyflym ar ôl unrhyw sbardun, a byddai hynny'n cael ei adlewyrchu gan ddynameg y farchnad ar unwaith.

Gall mecanwaith o'r fath weithredu fel grym cywirol, gan hybu cynnydd mewn prisiau os byddant yn croesi'r trothwy sbarduno. Gallai hyn beri i brisiau ddychwelyd i ystod fasnachu uwch. Os mai dim ond pan fydd amodau'r farchnad yn eithafol y bwriedir i'r mecanwaith hwn gael ei sbarduno, yna mae'n bosibl y bydd effaith gywirol yn fwy dymunol na chynnal prisiau.

Fodd bynnag, nid yw'n cynnig yr un lefel o sicrwydd hirdymor ynghylch isafswm pris â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau. Pe bai nifer y lwfansau a gaiff eu tynnu o'r cyflenwad yn annigonol i gynyddu prisiau, gallai'r prisiau barhau i ostwng.

| Cwestiynau |
| --- |
| 21. Ydych chi'n cytuno ag asesiad yr Awdurdod o bob un o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth i ategu eich ateb.<br>22. A oes unrhyw opsiynau eraill heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru uchod y gallai'r Awdurdod eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risg o ostyngiad sydyn, parhaus a sylweddol mewn prisiau ym marchnad CMA y DU? Os felly, disgrifiwch sut mae'r mecanwaith yn gweithredu. |

# Asesiad yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi ystyried y gwerthusiad o'r opsiynau uchod ochr yn ochr ag arwyddion blaenorol ynglŷn â dyfodol y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau (fel y trafodwyd yn y bennod "Polisi Marchnadoedd Presennol"). O ystyried natur y risg hon a'r lliniariad a gynigir gan y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau, yn ogystal â'r ffaith bod y farchnad yn gyfarwydd â'r offeryn, **mae'r Awdurdod o blaid parhau â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau**.

Fodd bynnag, er bod y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau'n cynnig lliniariad effeithiol yn erbyn y risg o ostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau, mae'r Awdurdod yn ymwybodol o bwysigrwydd dyluniad effeithiol i Bris Cadw ar gyfer Arwerthiannau. Felly, hoffai'r Awdurdod archwilio opsiynau ar gyfer newid ei ddyluniad er mwyn sicrhau bod y lliniariad a gynigir ganddo yn benodol ac wedi'i dargedu, ac y bydd hynny'n parhau i fod yn wir wrth i'r cynllun ddatblygu.

Hoffai'r Awdurdod hefyd archwilio rhinweddau cyflwyno mecanweithiau ychwanegol ochr yn ochr â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau er mwyn lliniaru'r risg o brisiau isel gormodol a pharhaus.

Bydd penderfyniad yr Awdurdod ynglŷn â'r gyfres o bolisïau marchnadoedd yn ystyried y rhyngweithio rhwng gwahanol fecanweithiau. Felly, bydd yr Awdurdod yn ystyried y rhyngweithio a'r gorgyffwrdd rhwng yr opsiynau a drafodir yma gan gynnwys Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd os penderfynir ar hynny.

Dylid nodi nad penderfyniad terfynol yw hwn. Bydd penderfyniadau terfynol yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn a gwaith dadansoddi mewnol pellach.

| Cwestiynau |
| --- |
| 23. Ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Awdurdod o blaid parhau â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth i ategu eich ateb. |

24. Ydych chi'n credu y dylai opswn polisi amgen, megis unrhyw un o'r opsiynau a drafodwyd yn gynharach yn y bennod hon, gael ei roi ar waith ar y cyd â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau? (Ydw/Nac ydw). Os felly, rhowch ragor o fanylion.

## Opsiynau manwl ar gyfer llunio polisïau

Mae'r Awdurdod yn credu y dylai CMA y DU gynnwys mesurau i liniaru'r risg o ostyngiad sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau. Er mwyn cyflawni hyn, ac yn dilyn asesiad o'r opsiynau sydd ar gael, mae'r Awdurdod wedi dewis sawl dull polisi posibl. Ymhlith y rhain mae:

### Parhau â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau heb wneud newidiadau iddo

Un dull posibl fyddai parhau â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau fel y mae ar hyn o bryd. Byddai hyn yn gadael dyluniad y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau fel a ganlyn:

| **Nodwedd** | **Y dyluniad presennol** |
|---|---|
| Ffocws y sbardun | Marchnad sylfaenol (arwerthiannau). Nid yw'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yn ymateb i brisiau yn y farchnad eilaidd. |
| Lefel sbarduno | £22. |
| Sensitifrwydd y sbardun | Ar unwaith. Caiff cynigion eu gwrthod ar unwaith.<br><br>Fodd bynnag, mae effaith y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau'n ddibynnol ar ganlyniad nifer o arwerthiannau yn olynol. |
| Datblygiad y sbardun | Sefydlog. Ni fydd lefel bresennol y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yn newid dros amser. |
| Disgresiwn yr Awdurdod | Dim. Caiff cynigion islaw £22 eu gwrthod yn awtomatig. |
| Dull ymyrryd yr Awdurdod | Caiff cynigion islaw £22 eu gwrthod. Os na chaiff arwerthiant ei glirio'n llawn, caiff unrhyw lwfansau heb eu gwerthu eu hailddosbarthu i'r pedwar arwerthiant nesaf. Ni all cyfanswm nifer y lwfansau yn yr arwerthiannau hyn fod yn fwy na 125% o'u nifer gwreiddiol. Caiff unrhyw lwfansau a fydd heb eu dyrannu oherwydd y cyfyngiad hwn eu tynnu o'r cyflenwad ar gyfer arwerthiannau. |
| Lwfansau | Caiff unrhyw lwfansau heb eu gwerthu na ellir eu hailddyrannu i arwerthiant yn y dyfodol eu symud i gyfrif y mecanwaith sefydlogrwydd y farchnad. |

### Parhau â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau gan wneud newidiadau iddo

Byddai'r Awdurdod yn croesawu safbwyntiau gan randdeiliaid ar unrhyw ffordd y gellid gwella'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yn eu barn nhw, ond mae wedi dewis y newidiadau canlynol fel y rhai sydd â'r potensial mwyaf i wella effeithiolrwydd y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau.

## Addasu'r lefel sbarduno

Ar y lefel bresennol (£22), mae'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau wedi aros gryn dipyn yn is na phris cyfartalog lwfansau ers i farchnad CMA y DU gael ei lansio. Yn dilyn pryderon a godwyd gan rai rhanddeiliaid yn y cais am dystiolaeth ynghylch a yw'r lefel yn ddigon uchel, hoffai'r Awdurdod archwilio p'un a yw lefel bresennol y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yn briodol er mwyn rheoli'r risg y bydd prisiau'n gostwng yn y farchnad ai peidio.

Mae'r Awdurdod yn ymwybodol mai bwriad y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau yw rheoli'r risg benodol o ostyngiadau eithafol mewn prisiau ac na ddylai ymyrryd yng ngweithrediad y farchnad o ddydd i ddydd a phrosesau darganfod prisiau effeithiol. Mecanwaith sy'n seiliedig ar farchnadoedd yw'r CMA, a dyna'r bwriad clir o hyd.

| Cwestiynau |
|---|
| 25. Ydych chi'n credu y dylai lefel sbarduno'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau gael ei newid? (Ydw/Nac ydw). Ar ba lefel y dylai'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau fod yn eich barn chi? Nodwch sail resymegol dros eich ateb.<br><br>26. Ydych chi'n credu y dylai lefel sbarduno'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau aros yn sefydlog neu ddatblygu dros amser? Os ydych chi'n credu y dylai ddatblygu, sut rydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod ddylunio'r datblygiad hwn? Nodwch sail resymegol dros eich ateb. |

## Addasu'r dull ymyrryd

Un o anfanteision y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau a nodwyd gan yr Awdurdod yw ei effaith anrhagweladwy ar y cyflenwad, oherwydd y ffordd y caiff lwfansau heb eu gwerthu eu hailddyrannu i arwerthiannau dilynol i ddechrau cyn cael eu tynnu o'r cyflenwad a'u rhoi yng nghyfrif y mecanwaith sefydlogrwydd y farchnad. Drwy newid y ffordd y caiff lwfansau heb eu gwerthu eu trin, gallai effaith y Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau ar y cyflenwad gael ei gwneud yn symlach ac yn fwy rhagweladwy.

- **Peidio ag ailddyrannu lwfansau heb eu gwerthu.** Trosglwyddo lwfansau heb eu gwerthu yn awtomatig o'r cyflenwad ar gyfer arwerthiannau i gyfrif y mecanwaith sefydlogrwydd y farchnad[20] pan na chaiff arwerthiannau eu clirio'n llawn, yn hytrach na'u hailddyrannu i'r pedwar arwerthiant nesaf.
- **Parhau â'r dull presennol.** Caiff lwfansau heb eu gwerthu eu cario drosodd i arwerthiannau dilynol fel y nodir yn y bennod "Polisi Marchnadoedd Presennol".

| Cwestiynau |
|---|

[20] Gellir cael gafael ar y lwfansau yn y cyfrif hwn pan fydd yr Awdurdod yn gweithredu ar ôl i'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gael ei sbarduno.

27. Ydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod newid y ffordd y mae'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau'n effeithio ar y cyflenwad ar gyfer arwerthiannau? Os felly, esboniwch sut y dylai hyn gael ei newid yn eich barn chi.

28. A oes unrhyw ffyrdd eraill y gallai'r Awdurdod newid Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau er mwyn ei wneud yn fwy effeithiol? Os felly, esboniwch y newidiadau hyn.

# Risg 3: Cynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau

## Trosolwg

Mewn cynllun sy'n seiliedig ar farchnadoedd megis CMA y DU, mae amrywiadau mewn prisiau'n nodwedd gynhenid. Mae newidiadau mewn prisiau yn anfon signal defnyddiol i gyfranogwyr y farchnad ynglŷn â datblygiadau yn y farchnad, gan lywio penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn lleihau allyriadau. Nid yw cynnydd mewn prisiau ym marchnadoedd CMA y DU yn destun pryder o reidrwydd ond, os bydd cynnydd sydyn a gormodol mewn prisiau yn parhau, gall hynny atal CMA y DU rhag sefydlu signal datgarboneiddio effeithiol.

Er enghraifft, gallai prisiau carbon sy'n codi'n sydyn ac sy'n aros yn uchel am gyfnod estynedig adael cyfranogwyr heb ddigon o amser i wneud buddsoddiadau mewn datgarboneiddio a all gymryd rhai blynyddoedd i ddwyn ffrwyth. Mewn senarios eithafol, gallai hyn gael effaith negyddol ar allu cwmnïau i weithredu a lleihau allyriadau.

Mae'r bennod hon yn archwilio'r opsiynau polisi y mae'r Awdurdod wedi'u canfod ar gyfer lliniaru'r risg o gynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus mewn prisiau yn CMA y DU, a ddiffinnir fel a ganlyn:

- Sydyn – mae'r pris yn cynyddu dros gyfnod byr.
- Sylweddol – mae'r cynnydd yn y pris naill ai a) yn wyriad sylweddol oddi wrth ystodau masnachu diweddar, neu b) yn cyrraedd lefel sy'n rhy uchel.
- Parhaus – mae'r pris yn parhau i gynyddu am gyfnod sy'n ddigon hir i hynny ddechrau cael effaith sylweddol ar ymddygiadau masnachu a datgarboneiddio gweithredwyr yn y farchnad.

Ceir amrywiaeth o fecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad a all ddiogelu'r farchnad rhag prisiau sy'n rhy uchel. Ymhlith y mecanweithiau mae rhai sy'n ceisio gosod terfynau caled ar y ffordd y bydd prisiau uchel yn codi, rhai sy'n gosod terfyn uchaf meddal ar brisiau a rhai a all ddiogelu rhag amrywiadau gormodol mewn prisiau.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried rhinweddau cymharol pob opsiwn ac yn ceisio barn ar ba mor addas yw pob un ohonynt ar gyfer mynd i'r afael â'r risg a nodwyd. Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar opsiynau dylunio manwl ar gyfer y dull y mae'r Awdurdod yn ei ffafrio.

## Opsiynau Polisi

Yn yr adran hon, rydym wedi amlinellu ac asesu mecanweithiau sydd â'r nod o liniaru rhag cynnydd mewn prisiau, ac sydd wedi cael eu rhoi ar waith mewn marchnadoedd CMA eraill, eu trafod mewn llenyddiaeth academaidd, neu'r ddau.

## Y polisi presennol – Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau

Ar hyn o bryd, mae'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ar waith yn CMA y DU er mwyn diogelu rhag achosion eithafol o brisiau uchel parhaus yn y farchnad. Caiff y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau presennol ei sbarduno pan fydd pris cyfartalog lwfans ar y farchnad eilaidd ar gyfer contractau dyfodol yn fwy na swm sy'n gyfwerth â thair gwaith y pris cyfartalog yn y cyfnod dwy flynedd cyn hynny am chwe mis yn olynol. Mae'r rheol hon yn rhoi cyfle i'r Awdurdod asesu natur y newidiadau mewn prisiau dan sylw dros gyfnod penodol o amser a phenderfynu a oes angen ymyrryd.

Gofynnodd yr Ymgynghoriad Datblygu am safbwyntiau gan randdeiliaid ar weithrediad y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau. Cododd rhanddeiliaid bryderon ynglŷn â dyluniad a phroses y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau presennol, gan gynnwys lefelau'r trothwy sbarduno, tryloywder prosesau gwneud penderfyniadau, a lefel disgresiwn yr Awdurdod.

Un o fanteision allweddol y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yw bod y sbardunau'n berthynol i brisiau hanesyddol carbon ac, felly, yn wahanol i derfynau uchaf ar brisiau, maent yn galluogi'r farchnad i bennu prisiau heb ystumio prosesau darganfod prisiau. Mae defnyddio cyfartaleddau hanesyddol yn diogelu rhag amrywiadau gormodol ac annisgwyl a allai achosi ansefydlogrwydd yn seiliedig ar brisiau diweddar. Noda'r Awdurdod safbwyntiau rhanddeiliaid sydd o'r farn nad yw'r trothwyon sbarduno presennol yn ddigon ymatebol.

Mae'r elfen ddisgresiynol yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth cyn i gyflenwad gael ei ychwanegu at y farchnad. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid wedi dweud bod y diffyg awtomeiddio a thryloywder mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar ôl i'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gael ei sbarduno ym mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022 wedi arwain at ansicrwydd. Yn y ddau achos, ni chymerwyd camau am fod yr Awdurdod wedi asesu natur y newidiadau mewn prisiau dan sylw ac wedi dod i'r casgliad nad oedd rheswm da dros gynyddu'r cyflenwad o lwfansau ar gyfer arwerthiannau.

## Cronfa Cyfyngu ar Gostau

Mae Cronfa Cyfyngu ar Gostau'n cynnig nifer penodedig o lwfansau i'r farchnad ar ôl i bris sbarduno gael ei gyrraedd. Drwy ychwanegu lwfansau at y farchnad, y nod yw lleihau pris lwfansau, neu 'gyfyngu' arno.

O gymharu â therfyn uchaf absoliwt ar brisiau, nid yw'r Gronfa Cyfyngu ar Gostau yn cyfyngu ar brisiau yn unol â'r lefel sbarduno; fodd bynnag, yn dibynnu ar ddyluniad y cynllun, gall y lwfansau ychwanegol fod o fewn y cap neu ddod o'r lwfansau wrth gefn uwchlaw'r cap y cytunwyd arno. Mae Cronfa Cyfyngu ar Gostau ar waith ar hyn o bryd mewn CMAau rhyngwladol megis CMA Seland Newydd a'r Fenter Nwyon Tŷ Gwydr Ranbarthol (RGGI).

Mae'r Gronfa Cyfyngu ar Gostau'n wahanol i ddyluniad presennol y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau am mai gwerth absoliwt yw'r pris yn hytrach na'i fod yn seiliedig ar gyfartaleddau hanesyddol. Mae cynlluniau rhyngwladol fel yr RGGI yn pennu pris sbarduno sy'n codi dros amser ar gyfradd sy'n gymaradwy â chyfradd adennill y farchnad ar gyfer buddsoddiadau eraill â phroffiliau risg tebyg.

Prif fantais Cronfa Cyfyngu ar Gostau yw ei bod yn rhoi sicrwydd i gyfranogwyr am eu bod yn gallu gweld y pris sbarduno (neu'r haenau os bydd mwy nag un pris sbarduno yn y cynllun). Gall cyfranogwyr gynnwys y tebygolrwydd o ymyriad a maint yr ymyriad hwnnw wrth brisio, gan helpu i arwain penderfyniadau buddsoddi. Mae'r Gronfa Cyfyngu ar Gostau hefyd yn cynnig tryloywder ynglŷn ag ymyriadau i'r farchnad.

Mae anfanteision i Gronfa Cyfyngu ar Gostau, gan gynnwys y ffaith bod y galw'n gallu mynd yn drech na gallu'r gronfa i ychwanegu lwfansau at y farchnad mewn sefyllfaoedd lle mai dim ond hyn a hyn o lwfansau sydd ar gael i'w dyrannu, gan olygu y bydd prisiau'n rhydd i godi eto. Mewn achosion lle y gellir ychwanegu lwfansau uwchlaw'r cap, gallai hynny effeithio ar allu CMA y DU i aros yn gyson â sero net.

## Terfyn uchaf absoliwt ar brisiau

Mae terfyn uchaf ar brisiau'n gosod terfyn absoliwt ar ba mor uchel y gall pris lwfans godi. Os bydd y pris yn codi uwchlaw lefel benodedig, gallai corff llywodraethu gyflenwi nifer diderfyn o lwfansau, a'u cynnig am werth y terfyn uchaf ar brisiau, nes y bydd prisiau'n gostwng islaw'r lefel honno. Ceir enghreifftiau o derfynau uchaf ar brisiau ar waith mewn CMAau rhyngwladol eraill, er enghraifft yn SMA California, lle mae'r terfyn uchaf ar brisiau wedi'i osod ar $81.50[21], gan gynyddu 5% y flwyddyn yn ogystal â chwyddiant. Mae cyflenwad o lwfansau o'r gronfa wrth gefn ar gael i gyfranogwyr eu prynu os bydd ganddynt rwymedigaethau cyfredol o ran allyriadau heb eu cyflawni.

Prif fantais terfyn uchaf ar brisiau yw ei fod yn sicrhau uchafswm pris gwarantedig am allyrru carbon, gan roi sefydlogrwydd a sicrwydd i gyfranogwyr y farchnad a all eu helpu i wneud penderfyniadau cynllunio a buddsoddi hirdymor.

Fodd bynnag, mae nifer o anfanteision i derfyn uchaf ar brisiau hefyd. Os bydd cyflenwad diderfyn o lwfansau ar gael i gyfranogwyr eu prynu, gallai hynny olygu y bydd prisiau'n mynd yn uwch na'r cap y cytunwyd arno. Byddai hyn yn peryglu uniondeb amgylcheddol cynllun pe bai angen lwfansau i sicrhau'r terfyn uchaf ar brisiau sydd uwchlaw'r cap sy'n cydymffurfio â sero net. O gymharu â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau, mae'r terfyn uchaf ar brisiau'n diffinio pris penodol sy'n rhy uchel ar gyfer y farchnad ym marn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Gallai'r nodwedd hon amharu ar brosesau darganfod prisiau am ei bod yn fwy ymyraethol na'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau presennol ac, os caiff ei gosod yn rhy isel, gallai anghymell datgarboneiddio.

| Cwestiynau |
|---|
| 29. Ydych chi'n cytuno ag asesiad yr Awdurdod o bob un o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth i ategu eich ateb. |

[21] Terfyn Uchaf ar Brisiau California, $81.50 (cywir ar adeg ysgrifennu): https://ww2.arb.ca.gov/our-work/programs/cap-and-trade-program/cost-containment-information/price-ceiling-information

30. A oes unrhyw opsiynau eraill heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru uchod y gallai'r Awdurdod eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risg o gynnydd sydyn, parhaus a sylweddol mewn prisiau? Os felly, disgrifiwch sut mae'r mecanwaith yn gweithredu.

## Asesiad yr Awdurdod

**Mae'r Awdurdod o blaid parhau â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau** ond archwilio elfennau dylunio megis ymatebolrwydd y trothwyon sbarduno a'r fethodoleg o ran lefel sbarduno (pris sbarduno hanesyddol o gymharu ag absoliwt). **Mae'r Awdurdod o blaid parhau i ddefnyddio ddisgresiwn ynghylch a ddylid gweithredu ar y sbardun** ond hoffai ystyried a ellid cyflwyno elfennau o awtomeiddio i'r broses, megis nifer penodedig o lwfansau'n cael eu hychwanegu at y cyflenwad. Caiff yr opsiynau dylunio hyn eu harchwilio isod.

Dylid nodi nad penderfyniad terfynol yw hwn. Bydd penderfyniadau terfynol yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn a gwaith dadansoddi mewnol pellach.

## Opsiynau manwl ar gyfer llunio polisïau

Mae'r Awdurdod yn ymgynghori ar sut, os o gwbl, y dylai'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gael ei addasu er mwyn iddo allu lliniaru'r risg o gynnydd sydyn, sylweddol a pharhaus ym mhrisiau CMA y DU mewn modd mor effeithiol â phosibl. Isod, byddwn yn archwilio opsiynau sy'n cynnwys newidiadau posibl y gellid eu gwneud i ddyluniad y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ar y sail hon. Ymhlith yr opsiynau manwl ar gyfer llunio polisïau mae:

- Parhau â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau heb wneud newidiadau iddo
- Parhau â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ond ystyried:
    - Trothwyon sbarduno, gan gynnwys y lluosydd a'r cyfnod sbarduno
    - Disgresiwn yr Awdurdod

### Parhau â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau – dim addasiadau

Un dull posibl fyddai parhau â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau fel y mae ar hyn o bryd. Byddai hyn yn gadael dyluniad y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau fel a ganlyn:

| Nodwedd yn Nyluniad y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau | Disgrifiad |
|---|---|
| Trothwy sbarduno | Caiff y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ei sbarduno os bydd pris Lwfansau'r DU dair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd yn y ddwy flynedd flaenorol am chwe mis yn olynol. |
| Methodoleg sbarduno | Parhau â'r lefelau presennol am gyfnod amhenodol fel y mae pethau, yn seiliedig ar gymariaethau hanesyddol. |
| Disgresiwn yr Awdurdod | Disgresiwn llwyr dros y broses gwneud penderfyniadau a'r ystod o opsiynau ymyrryd sydd ar gael i'r Awdurdod. |
| Ymyrryd gan yr Awdurdod | Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael, gan gynnwys: gwneud dim, ailddosbarthu lwfansau rhwng arwerthiannau'r flwyddyn gyfredol, dwyn lwfansau a arwerthir ymlaen o flynyddoedd yn y dyfodol i'r flwyddyn gyfredol, arwerthu lwfansau o gyfrif y mecanwaith sefydlogrwydd y farchnad, arwerthu hyd at 25% o lwfansau yn y Gronfa Newydd-ddyfodiaid, arwerthu lwfansau o'r gyfran hyblyg neu arwerthu lwfansau heb eu dyrannu sy'n weddill o'r Cap Diwydiant. |

| Cwestiynau |
|---|
| 31. Ydych chi'n credu y dylid parhau â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau heb wneud addasiadau iddo? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol yn eich ymateb. |

## Addasu trothwy a methodoleg sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau

### *Trothwyon sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau*

Nid yw'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau wedi cael ei sbarduno ers i'r trothwyon gynyddu ym mis Chwefror 2023 i'r lefelau presennol, sef tair gwaith y cyfartaledd hanesyddol dwy flynedd am chwe mis yn olynol. Roedd yr adborth gan randdeiliaid yn yr Ymgynghoriad Datblygu yn canolbwyntio ar y prisiau uchel sy'n ofynnol i sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau, a dywedodd rhai ymatebwyr y gall y mecanwaith fynd yn afraid dros amser. Mae'r Awdurdod yn archwilio'r opsiwn o newid trothwyon y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau er mwyn ei wneud yn fwy ymatebol.

| **Y trothwy sbarduno presennol:** |
|---|
| Caiff y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ei sbarduno os bydd pris cyfartalog un lwfans ar y farchnad eilaidd ar gyfer contractau dyfodol yn fwy na swm sy'n gyfwerth â:<br>• thair gwaith y pris cyfartalog (lluosydd)<br>• yn y cyfnod dwy flynedd blaenorol (cyfnod cyfeirio)<br>• am chwe mis yn olynol (cyfnod sbarduno) |

Gallai newidiadau i drothwyon sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gynnwys newid y canlynol:

- y lluosydd presennol;
- hyd y cyfnod sbarduno;
- y cyfnod cyfeirio

Er enghraifft, er mwyn gwneud y mecanweithiau'n fwy ymatebol, gellir lleihau'r lluosydd (e.e. o dair gwaith i ddwy waith) neu hyd y cyfnod sbarduno (e.e. o chwe mis i dri mis).

| Cwestiynau |
|---|
| 32. Ydych chi'n credu y dylid parhau â throthwyon presennol y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol.<br>33. Os nad ydych yn credu hynny, a ddylai trothwyon y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gael eu gwneud yn fwy ymatebol drwy newid y lluosydd, y cyfnod sbarduno a/neu'r cyfnod cyfeirio?  Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol. |

### *Methodoleg sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau*

Ar hyn o bryd, mae methodoleg sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yn defnyddio cymariaethau hanesyddol. Mae hyn yn galluogi sbardun y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau i ddatblygu dros amser ac ymateb i'r cyflenwad a'r galw. Fel arall, gallai'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ddefnyddio pris penodedig (yn debyg i'r Gronfa Cyfyngu ar Gostau). Gall y dull hwn fynd i'r afael â safbwyntiau rhanddeiliaid bod prisiau carbon uwch yn ei gwneud yn gynyddol annhebygol y caiff y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ei sbarduno yn y dyfodol, a byddai'n galluogi mwy o dryloywder ynghylch faint yw'r pris sbarduno.

Fodd bynnag, mae cyflwyno pris sbarduno absoliwt yn llawer mwy ymyraethol na'r dull presennol, a gall hynny amharu ar brosesau darganfod prisiau a'r gallu i gynnal signal pris carbon effeithiol. Yn hollbwysig, diben y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau yw lliniaru'r risg o gynnydd sydyn, **parhaus**, a sylweddol mewn prisiau. Bydd cyrraedd pris penodedig mewn un achos yn arwain at ymyriad gan yr Awdurdod mewn ymateb i gynnydd a allai fod yn un byrhoedlog, ond byddai trothwyon sy'n seiliedig ar gymariaethau hanesyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymyrryd pan fyddai prisiau'n rhy uchel am gyfnod estynedig o amser.

**Mae'r Awdurdod o blaid parhau i ddefnyddio cymariaethau hanesyddol wrth bennu trothwyon sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau.**

| Cwestiynau |
|---|
| 34. Ydych chi'n credu y dylai methodoleg sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau fod yn seiliedig ar gymariaethau hanesyddol neu ar bris penodedig? Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol.<br><br>35. A oes dulliau amgen y dylem eu hystyried wrth bennu pris sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau? Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol. |

## Disgresiwn yr Awdurdod ac awtomeiddio

Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn llawn ynghylch gweithredu os caiff y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ei sbarduno, gan gynnwys lefel yr ymyriad. Ar y ddau achlysur blaenorol pan gafodd y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau ei sbarduno, ni chymerodd yr Awdurdod ddim camau ar ôl iddo asesu natur y newidiadau hyn mewn prisiau a dod i'r casgliad nad oedd rheswm da dros ymyrryd yn y naill achos na'r llall. Un thema allweddol a ddaeth i'r amlwg gan randdeiliaid yn yr Ymgynghoriad Datblygu oedd cais am fwy o awtomeiddio mewn prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn rhoi mwy o dryloywder ynglŷn â phryd y byddai'r Awdurdod yn gweithredu, ac ynglŷn â lefel yr ymyriad. Gallai mwy o awtomeiddio yn y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gynnwys ymyriad awtomatig a rhagddiffiniedig fel y gwelwyd yn y newidiadau i Fecanwaith Cyfyngu ar Gostau SMA yr UE[22].

Byddai awtomeiddio'n rhoi sicrwydd seiliedig ar reolau i gyfranogwyr, ac yn rhoi mwy o eglurder iddynt ynglŷn â chanlyniadau sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau, gan eu galluogi i gynllunio, mewnoli'r goblygiadau i'r cyflenwad yn sgil y posibilrwydd o sbarduno yn well, a gwneud penderfyniadau buddsoddi ar y sail honno. Anfantais y dull hwn yw nad yw awtomeiddio'n galluogi'r Awdurdod i ddelio â newidiadau annisgwyl mewn prisiau yn ystod y flwyddyn drwy wneud rhywbeth nad yw'r farchnad wedi'i gynnwys wrth brisio, sydd felly'n lleihau effeithiolrwydd ymateb gan fod y signal gwybodaeth i'r farchnad wedi cael ei danseilio, am nad yw nifer y lwfansau a ychwanegir ar ôl i'r mecanwaith gael ei sbarduno yn hysbys. Mae'r Atodiad Dadansoddol (tudalen 28) yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y term ‘cynnwys wrth brisio’.

Ceir sawl senario a allai arwain at sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau, gan gynnwys rhai y gellid eu rhagweld ac eraill na fydd wedi cael eu rhagweld o bosibl. Mae parhau i ddefnyddio disgresiwn yn galluogi'r Awdurdod i arfer ei farn orau yn ôl yr angen wrth ymateb i senarios amrywiol ac ansicr yn y dyfodol nad ydynt wedi cael eu rhagweld.

**Mae'r Awdurdod o blaid parhau i ddefnyddio disgresiwn yn ei broses gwneud penderfyniadau** gan y byddai cael gwared ar ddisgresiwn yr Awdurdod yn lleihau hyblygrwydd

[22] Mae Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau SMA yr UE wedi cael ei wneud fymryn yn fwy ymatebol fel rhan o Ddiwygiadau Addas ar gyfer 55 sy'n golygu, os bydd pris cyfartalog lwfansau am y chwe mis blaenorol yn fwy na 2.4 gwaith yn fwy na phris cyfartalog lwfansau am y ddwy flynedd flaenorol, y caiff 75 miliwn o lwfansau eu rhyddhau o'r Gronfa Sefydlogrwydd y Farchnad dros gyfnod o chwe mis. https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:02003L0087-20230605

yr opsiynau sydd ar gael wrth ymateb i gynnydd mewn prisiau. Mae'n debygol y bydd angen gwahanol ymatebion i wahanol senarios o gynnydd mewn prisiau, a hynny o ran maint yr ymyriad a dosbarthiad lwfansau ychwanegol rhwng arwerthiannau, ac mae disgresiwn yr Awdurdod yn golygu bod modd targedu ymyriadau'n well er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol datblygiadau mewn prisiau.

| Cwestiynau |
| --- |
| 36. Ydych chi'n credu y dylai proses gwneud penderfyniadau'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau barhau i gynnwys disgresiwn? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol.<br>37. Os nad ydych yn credu hynny, ydych chi'n credu y dylai'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gynnwys ymateb cwbl neu rannol awtomataidd ar ôl iddo gael ei sbarduno? Os felly, disgrifiwch sut y gallai hyn weithredu.<br>38. A oes unrhyw newidiadau eraill i ddyluniad y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau nad ydynt wedi'u rhestru uchod a fyddai'n ei wneud yn fwy effeithiol? |

# Y Gronfa wrth Gefn

Ar hyn o bryd, mae gan CMA y DU 29.5 miliwn o lwfansau sydd wedi'u neilltuo mewn cronfa wrth gefn. Mae hyn yn gyfwerth â thua 3% o'r cap sero net. Ymhlith yr achosion lle y gellir defnyddio lwfansau o'r gronfa wrth gefn mae adegau pan gaiff mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad, megis y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau, eu sbarduno, neu er mwyn lliniaru'r defnydd o Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau er mwyn cynnal lefelau dyrannu am ddim.

Os bydd Awdurdod CMA y DU yn rhoi mecanwaith addasu cyflenwad ar waith, bydd y gronfa wrth gefn naill ai'n bwydo lwfansau yn ôl i mewn i'r farchnad os caiff y trothwy sbarduno isaf ei gyrraedd, neu'n derbyn lwfansau os caiff y trothwy uchaf ei gyrraedd er mwyn lleihau'r niferoedd mewn arwerthiannau.

Yn sgil y penderfyniadau a wneir yn yr ymgynghoriad hwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried yn briodol a fydd angen gwneud unrhyw newidiadau i faint neu strwythur y gronfa wrth gefn[23].

| Cwestiynau |
| --- |
| 39. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar y dull o ymdrin â lwfansau yn y gronfa wrth gefn yn CMA y DU neu a oes unrhyw beth yr hoffech i'r Awdurdod ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'i maint a'i strwythur? |

[23] Gweler yr adran 'Y gronfa wrth gefn' yn yr Atodiad Dadansoddol. Tudalen 32.

# Polisi Marchnadoedd Ehangach

Caiff marchnad CMA y DU ei chefnogi gan amrywiaeth o bolisïau marchnadoedd, gan gynnwys mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad yn ogystal â nodweddion eraill y cynllun megis arwerthiannau a'r broses glirio, a darpariaethau rheoleiddio sy'n cynnal uniondeb y farchnad ac yn diogelu rhag camddefnydd. Gyda'i gilydd, nod y polisïau hyn yw cefnogi sefydlogrwydd y farchnad yn y cynllun a dylanwadu ar lefelau o hylifedd ac anwadalrwydd.

Roedd y cais am dystiolaeth fel rhan o'r Ymgynghoriad Datblygu yn gofyn am safbwyntiau ar nodweddion sy'n rhoi CMA y DU mewn mwy o berygl o gamddefnyddio'r farchnad na marchnadoedd ariannol eraill, safbwyntiau ar y broses bresennol ar gyfer arwerthiannau, safbwyntiau ar fancio a benthyca a mesurau eraill y dylai'r Awdurdod eu hystyried er mwyn cynnal hylifedd ymhellach.

Fel rhan o ymrwymiad yr Awdurdod i werthuso'r cynllun a'i wella'n barhaus, lansiwyd prosiect gwerthuso. Mae'r canfyddiadau sy'n datblygu wedi'u cyhoeddi yn[24] . Cafodd gwaith Cam 1 ei wneud drwy gydol 2023 ac roedd yn cynnwys arolwg, cyfweliadau manwl â chyfranogwyr y cynllun, adolygiad o lenyddiaeth academaidd a dadansoddiad o ddata marchnadoedd CMA y DU. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth werthfawr am y ffordd y mae'r farchnad sylfaenol a'r farchnad eilaidd yn gweithredu ac, ochr yn ochr â'r cais am dystiolaeth, bydd yn cynnig tystiolaeth a dadansoddiad defnyddiol er mwyn llywio unrhyw bolisi marchnadoedd yn y dyfodol.

Nid yw'r Awdurdod yn ymgynghori ymhellach ar bolisi marchnadoedd ehangach fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

# Y camau nesaf

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu defnyddio i ddatblygu penderfyniadau polisi terfynol ar gyfer yr adolygiad o bolisi marchnadoedd. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am 12 wythnos cyn cau. Wedyn, bydd yr Awdurdod yn gweithio drwy'r ymatebion ac yn anelu at gyhoeddi ymateb yr Awdurdod yn 2024.

[24] "*Evaluation of UK Emissions Trading Scheme: Phase 1 Report*" y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar 14 Rhagfyr: https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-of-the-uk-emissions-trading-scheme-phase-1

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Ydych chi'n cytuno â'r risgiau allweddol rydym wedi tynnu sylw atynt? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol yn eich ymateb.
2. A oes unrhyw risgiau eraill heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru uchod y dylai'r Awdurdod eu hystyried? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol yn eich ymateb.
3. Ydych chi'n credu y byddai'n fuddiol i CMA y DU pe bai Mecanwaith Addasu Cyflenwad yn cael ei gyflwyno er mwyn mynd i'r afael â newid yn y galw sy'n arwain at risg o effeithiau hirdymor? (Ydw/Nac ydw). Esboniwch y rhesymau dros eich ymateb.
4. Os felly, ai a) Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd neu b) Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan brisiau fyddai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r risg hon yn eich barn chi? Rhowch eich rhesymau dros eich dewis a'ch ymateb.
5. Ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Awdurdod o blaid cyflwyno Mecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd? (Ydw/Nac ydw). Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.
6. Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o gyfrifo cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad yn CMA y DU? (Ydw/Nac ydw). Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.
7. Os ydych chi'n anghytuno â'r dull arfaethedig, awgrymwch ddull amgen a'ch sail resymegol dros hyn.
8. Beth yw eich barn ar ba lefel o warged sy'n gyfystyr ag a) lefel optimaidd o warged yn y cynllun, a fyddai'n galluogi'r farchnad i weithredu'n effeithiol a b) sut y gellid asesu hyn gan gynnwys o ran methodoleg? Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth sydd gennych i ategu eich ymateb.
9. A oes gennych farn ar ba lefel y dylai'r a) trothwy niferoedd sbarduno uchaf a b) trothwy niferoedd sbarduno isaf fod mewn Mecanwaith Addasu Cyflenwad yn CMA y DU? (Oes/Nac oes). Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i ategu eich ymateb.
10. Pa mor ymatebol y dylai'r trothwyon uchaf ac isaf fod, er enghraifft a ddylai fod gan bob trothwy raddfa symudol ar gyfer addasu cyflenwad? Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i ategu eich ymateb.
11. A yw'r Awdurdod wedi nodi'r holl fathau o sbardunau y dylid eu hystyried; neu a oes mathau eraill o drothwyon sbarduno y dylid eu hystyried? Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.
12. Ydych chi'n cytuno y byddai trothwyon sbarduno cymharol yn fwy priodol na throthwyon sefydlog absoliwt? (Ydw/Nac ydw). Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.

13. Os ydych yn cytuno, beth sydd orau gennych – gwerthoedd trothwy sbarduno cymharol a) fel cyfran o gap blynyddol CMA y DU neu b) sy'n berthynol i'r niferoedd blynyddol mewn arwerthiannau?

14. Beth yw eich barn ar beth ddylai'r lefel briodol o addasiad i'r niferoedd mewn arwerthiannau fod? Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i ategu eich ymateb.

15. A oes gennych farn ar b'un a ddylai'r addasiad hwn fod ar sail canran o'r niferoedd blynyddol mewn arwerthiannau, ffigur sefydlog arall, cyfuniad o'r ddau, neu unrhyw fetrig arall? Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.

16. Ydych chi'n cytuno â'r amseriad arfaethedig ar gyfer cyhoeddi cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad, sef ar ôl y terfyn amser cydymffurfio yn y gwanwyn? (Ydw/Nac ydw). Os nad ydych yn cytuno, esboniwch eich rhesymau.

17. Beth yw eich barn ar amseriadau ar gyfer addasu'r cyflenwad mewn arwerthiannau os caiff y Mecanwaith Addasu Cyflenwad ei ysgogi? Rhowch fanylion yr amseriadau sydd orau gennych a'r sail resymegol dros hyn.

18. Os bydd angen addasu'r niferoedd mewn arwerthiannau am fod y Mecanwaith Addasu Cyflenwad wedi'i ysgogi, ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod ymdrechu i sicrhau y bydd nifer y lwfansau i'w harwerthu wedi'i ddosbarthu'n lled gyfartal yn ystod y cyfnod y bydd yr addasiad hwn yn effeithio arno? (Ydw/Nac ydw). Rhowch eich rhesymau dros eich ymateb.

19. Yn eich barn chi, pryd, h.y. ym mha un o flynyddoedd y cynllun, y dylai unrhyw Fecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd gael ei roi ar waith yn CMA y DU, gan olygu y byddai'r Mecanwaith Addasu Cyflenwad yn dechrau gweithredu y flwyddyn ganlynol ar ôl y cyfnod cydymffurfio? Esboniwch eich rhesymau dros eich ymateb.

20. A oes gennych farn ar y rhyngweithio rhwng unrhyw Fecanwaith Addasu Cyflenwad a gaiff ei sbarduno gan niferoedd a'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau a'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau? Rhowch eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i ategu eich ymateb.

21. Ydych chi'n cytuno ag asesiad yr Awdurdod o bob un o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth i ategu eich ateb.

22. A oes unrhyw opsiynau eraill heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru uchod y gallai'r Awdurdod eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risg o ostyngiad sydyn, parhaus a sylweddol mewn prisiau ym marchnad CMA y DU? Os felly, disgrifiwch sut mae'r mecanwaith yn gweithredu.

23. Ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Awdurdod o blaid parhau â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth i ategu eich ateb.

24. Ydych chi'n credu y dylai opsiwn polisi amgen, megis unrhyw un o'r opsiynau a drafodwyd yn gynharach yn y bennod hon, gael ei roi ar waith ar y cyd â'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau? (Ydw/Nac ydw). Os felly, rhowch ragor o fanylion.

25. Ydych chi'n credu y dylai lefel sbarduno'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau gael ei newid? (Ydw/Nac ydw). Ar ba lefel y dylai'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau fod yn eich barn chi? Nodwch sail resymegol dros eich ateb.

26. Ydych chi'n credu y dylai lefel sbarduno'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau aros yn sefydlog neu ddatblygu dros amser? Os ydych chi'n credu y dylai ddatblygu, sut rydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod ddylunio'r datblygiad hwn? Nodwch sail resymegol dros eich ateb.

27. Ydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod newid y ffordd y mae'r Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau'n effeithio ar y cyflenwad ar gyfer arwerthiannau? Os felly, esboniwch sut y dylai hyn gael ei newid yn eich barn chi.

28. A oes unrhyw ffyrdd eraill y gallai'r Awdurdod newid Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau er mwyn ei wneud yn fwy effeithiol? Os felly, esboniwch y newidiadau hyn.

29. Ydych chi'n cytuno ag asesiad yr Awdurdod o bob un o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth i ategu eich ateb.

30. A oes unrhyw opsiynau eraill heblaw'r rhai sydd wedi'u rhestru uchod y gallai'r Awdurdod eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risg o gynnydd sydyn, parhaus a sylweddol mewn prisiau? Os felly, disgrifiwch sut mae'r mecanwaith yn gweithredu.

31. Ydych chi'n credu y dylid parhau â'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau heb wneud addasiadau iddo? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol yn eich ymateb.

32. Ydych chi'n credu y dylid parhau â throthwyon presennol y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol.

33. Os nad ydych yn credu hynny, a ddylai trothwyon y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gael eu gwneud yn fwy ymatebol drwy newid y lluosydd, y cyfnod sbarduno a/neu'r cyfnod cyfeirio? Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol.

34. Ydych chi'n credu y dylai methodoleg sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau fod yn seiliedig ar gymariaethau hanesyddol neu ar bris penodedig? Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol.

35. A oes dulliau amgen y dylem eu hystyried wrth bennu pris sbarduno'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau? Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol.

36. Ydych chi'n credu y dylai proses gwneud penderfyniadau'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau barhau i gynnwys disgresiwn? (Ydw/Nac ydw). Nodwch unrhyw dystiolaeth ategol.

37. Os nad ydych yn credu hynny, ydych chi'n credu y dylai'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gynnwys ymateb cwbl neu rannol awtomataidd ar ôl iddo gael ei sbarduno? Os felly, disgrifiwch sut y gallai hyn weithredu.

38. A oes unrhyw newidiadau eraill i ddyluniad y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau nad ydynt wedi'u rhestru uchod a fyddai'n ei wneud yn fwy effeithiol?

39. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar y dull o ymdrin â lwfansau yn y gronfa wrth gefn yn CMA y DU neu a oes unrhyw beth yr hoffech i'r Awdurdod ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'i maint a'i strwythur?

# Atodiad


## Manylion cap CMA y DU:

Ar ôl i'r cap sy'n gyson â sero net gael ei roi ar waith yn CMA y DU o 2024 ymlaen, bydd y cap blynyddol fel a ganlyn:

| Blwyddyn | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cap sylfaenol | 92,062,882 | 86,742,014 | 79,059,690 | 70,127,996 | 53,498,502 | 50,918,572 | 49,320,164 |

## Y niferoedd mewn arwerthiannau ar gyfer sectorau presennol CMA y DU hyd at ddiwedd Cam 1

Mae'r niferoedd mewn arwerthiannau ar gyfer sectorau a gwmpesir gan CMA y DU ar hyn o bryd fel y nodir yn Ymateb yr Awdurdod i Ymgynghoriad Datblygu CMA y DU i'w gweld isod. Dylid nodi nad yw'r graff yn ystyried y niferoedd mewn arwerthiannau ar gyfer sectorau newydd a gaiff eu cwmpasu gan CMA y DU yn nes ymlaen yng Ngham 1 e.e. gweithgarwch morol domestig ac ynni o wastraff a llosgi gwastraff.[25]




[25] I gael rhagor o fanylion am ehangu sectorau CMA y DU, gweler Ymateb yr Awdurdod i Ymgynghoriad Datblygu CMA y DU: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1166812/uk-emissions-trading-scheme-consultation-government-response.pdf.

# Rhestr termau

**Anwadalrwydd:** Ffordd o fesur pa mor gyflym y bydd pris lwfansau'r DU yn newid dros gyfnod penodol.

**Awtomeiddio (mecanwaith marchnad):** Mecanweithiau sy'n ymyrryd yn awtomataidd yn y farchnad, yn hytrach nag ymyriadau sy'n digwydd yn ôl disgresiwn yr Awdurdod.

**Bancio**: Mae bancio'n golygu y byddai lwfansau'n parhau i fod yn ddilys am gyfnod amhenodol. Gall cyfranogwyr "fancio" lwfansau heb gyfyngiadau: mewn rhai achosion, er mwyn ymddiogelu.

**Benthyca**: Ystyr benthyca yw y gall cyfranogwyr sydd â hawl i ddyraniadau am ddim hefyd "fenthyca" lwfansau drwy ddefnyddio dyraniad am ddim yn ystod y flwyddyn i gydymffurfio â rhwymedigaeth cydymffurfio'r flwyddyn flaenorol.

**Camddefnyddio'r farchnad:** Ystyrir bod ymddygiad fel masnachu mewnol a chamdrafod y farchnad yn gyfystyr â chamddefnyddio'r farchnad, oherwydd gall arwain at amodau anhrefnus yn y farchnad, effeithio ar brosesau ffurfio prisiau a chreu diffyg chwarae teg rhwng cyfranogwyr.

**Clirio arwerthiant:** Nifer y lwfansau a gaiff eu gwerthu mewn arwerthiant unigol o gymharu â chyfanswm y nifer sydd ar gael. Wedi'i glirio'n llawn – pob lwfans wedi'i werthu. Wedi'i glirio'n rhannol – rhai lwfansau heb eu gwerthu.

**Contract dyfodol**: Cytundeb cyfreithiol i brynu neu werthu ased penodol am bris penodedig ar adeg benodedig yn y dyfodol yw contract dyfodol.

**Cronfa wrth Gefn:** Cronfa o lwfansau o fewn CMA y DU y gellir eu defnyddio i reoli'r farchnad yn y dyfodol, gan gynnwys mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad (megis y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau) neu i liniaru'r defnydd o'r Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau.

**Cydymffurfio:** Y gofyniad i weithfeydd sefydlog a gweithredwyr awyrennau ildio nifer o lwfansau'r DU sy'n gyfwerth â'u hallyriadau o'r flwyddyn gynt.

**Cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad:** Maint y gwarged yn y farchnad.

**Cyfranogwyr:** Y rhai sy'n weithredol ym marchnad CMA y DU, gan gynnwys gweithfeydd sefydlog a gweithredwyr awyrennau (cyfranogwyr cydymffurfio), sefydliadau ariannol a chronfeydd buddsoddi.

**Darganfod prisiau:** Y broses lle y bydd grymoedd y farchnad yn pennu pris teg lwfansau'r DU wrth i gyfranogwyr fasnachu yn y farchnad.

**Digwyddiad annisgwyl:** Newid sydyn yn amodau'r farchnad, a hynny'n debygol o ganlyniad i ffactor allanol.

**Dull seiliedig ar reolau:** Lle y bydd gweithrediad polisïau marchnadoedd CMA y DU wedi'i bennu ymlaen llaw, gan alluogi'r farchnad i ddeall sut y gall polisïau effeithio ar amodau'r farchnad.

**Effeithlonrwydd economaidd:** Bwriedir i fecanwaith marchnad CMA y DU gymell buddsoddiad yn y mathau rhataf o ddulliau lleihau allyriadau sydd ar gael ar adeg benodol. Byddai hyn yn golygu bod cost gyffredinol datgarboneiddio yn y sector a fasnachir mor isel â phosibl er mwyn sicrhau'r lleihad angenrheidiol mewn allyriadau.

**Ffactor Cywiro ar Draws Sectorau:** Os bydd cyfanswm y dyraniadau am ddim ar gyfer yr holl weithfeydd diwydiannol yn uwch na'r cap diwydiant[26] mewn unrhyw flwyddyn benodol, caiff y dyraniadau am ddim ar gyfer yr holl weithfeydd eu lleihau mewn modd cymesur.

**Grymoedd y farchnad:** Yn gyffredinol, y ffactorau sy'n effeithio ar gost lwfansau'r DU, gan gynnwys y cyflenwad a'r galw a chostau lleihau allyriadau.

**Gwarged:** (Gweler cyfanswm nifer y lwfansau mewn cylchrediad hefyd) nifer y lwfansau sy'n bresennol yn CMA y DU uwchlaw nifer y lwfansau sy'n ofynnol i gydymffurfio bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu y caiff y gwarged ei gyfrifo unwaith y flwyddyn yn dilyn y terfyn amser cydymffurfio.

**Gwarged y farchnad:** Cyfanswm nifer y lwfansau a ddelir gan gyfranogwyr y farchnad yn dilyn cylch cydymffurfio.

**Hylifedd:** I ba raddau y gellir prynu neu werthu un o lwfansau'r DU heb effeithio ar ei bris (gweler yr Atodiad Dadansoddol ar fesur hylifedd).

**Lwfansau'r DU:** Yr unedau a gaiff eu prynu a'u gwerthu o fewn CMA y DU. Lwfans i allyrru'r hyn sy'n gyfwerth ag 1 dunnell o garbon deuocsid (1 tCO2e) yw un o'r rhain, ac mae'n ofynnol i endidau cydymffurfio yn y cynllun gaffael ac ildio digon o'r rhain i gyfateb i'w hallyriadau adroddadwy blynyddol.

**Mecanwaith Addasu Cyflenwad:** Mecanwaith yn y farchnad, a all fod yn seiliedig ar brisiau neu niferoedd, sy'n addasu'r cyflenwad o lwfansau i mewn i'r farchnad am iddo fynd y tu hwnt i ystod o brisiau (os caiff ei sbarduno gan brisiau) neu warged (os caiff ei sbarduno gan niferoedd) yn y farchnad.

**Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau:** Mecanwaith polisi sydd ar waith ar hyn o bryd yn CMA y DU, y bwriedir iddo ymateb i achosion o gynnydd sydyn a mawr mewn prisiau lwfansau uwchlaw cyfartaleddau hanesyddol, a'u lliniaru.

**Mecanweithiau Sefydlogrwydd y Farchnad:** Polisi marchnadoedd sydd â'r nod o sefydlogi'r farchnad pan fydd yn symud y tu hwnt i'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei ystyried yn weithrediad arferol.

**Newid yn y galw:** Newid yn lefel y galw am lwfansau yn y farchnad.

---

[26] Mae'r cap diwydiant yn gosod terfyn ar nifer y lwfansau sydd ar gael i'w rhoi i weithfeydd sefydlog am ddim.

**Pris Cadw ar gyfer Arwerthiannau:** Mecanwaith polisi sydd ar waith ar hyn o bryd yn CMA y DU ac sy'n pennu isafswm pris o £22 mewn arwerthiannau sylfaenol. Ni chaiff lwfansau'r DU eu gwerthu am bris is na hyn.

**Prisiau cyfartalog hanesyddol:** Pris cyfartalog lwfansau'r DU dros gyfnod penodol.

**Sbardun:** Y ffordd y caiff mecanweithiau sefydlogrwydd y farchnad eu hysgogi, mewn perthynas ag amodau yn y farchnad megis prisiau neu newidiadau i brisiau.

**Signal datgarboneiddio:** (Gweler signal pris carbon) y cymhelliad i ddatgarboneiddio a gaiff ei sefydlu gan CMA y DU drwy roi cost ar allyriadau.

**Signal pris carbon:** (Gweler signal datgarboneiddio) y cymhelliad i ddatgarboneiddio a gaiff ei sefydlu gan CMA y DU drwy roi cost ar allyriadau.

**Y farchnad eilaidd:** Caiff ei chynnal gan y Gyfnewidfa Ryng-gyfandirol ac mae'n galluogi cyfranogwyr i brynu a gwerthu lwfansau â'i gilydd, a hynny'n aml ar ffurf contractau dyfodol.

**Y farchnad sylfaenol:** Arwerthiannau lwfansau'r DU a gaiff eu cynnal gan y Gyfnewidfa Ryng-gyfandirol ar ran yr Awdurdod.

**Ymatebolrwydd (mecanwaith):** Pa mor gyflym y gall mecanwaith marchnad ymateb i amodau andwyol yn y farchnad.

**Ymddiogelu:** Naill ai a) prynu lwfansau er mwyn cydymffurfio mewn blynyddoedd cydymffurfio yn y dyfodol, neu b) prynu lwfansau er mwyn rheoli risg ar draws ystod eang o weithgareddau neu fuddsoddiadau.

**Ymyriad yn y farchnad:** Ymyriad ym marchnad CMA y DU gan yr Awdurdod, megis cynyddu'r cyflenwad ar gyfer arwerthiannau ar ôl i'r Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau gael ei sbarduno.

**Y sector a fasnachir:** Y gweithgareddau busnes a'r diwydiannau y mae eu hallyriadau o fewn cwmpas CMA y DU. Rhaid iddynt brynu lwfansau'r DU sy'n gyfwerth â'u hallyriadau o fewn pob cylch cydymffurfio blynyddol. Ar hyn o bryd, mae CMA y DU yn berthnasol i ddiwydiannau ynni-ddwys, y sector cynhyrchu pŵer a'r sector hedfanaeth.[27]

[27] Mae'r gweithgareddau sydd o fewn cwmpas CMA y DU wedi'u rhestru yn Atodlen 1 (hedfanaeth) ac Atodlen 2 (gweithfeydd) i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 sydd i'w gweld yma: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1265/contents

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gael o: [www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-future-markets-policy](www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-future-markets-policy)

Os bydd angen i chi gael fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, e-bostiwch [alt.formats@energysecurity.gov.uk](mailto:alt.formats@energysecurity.gov.uk). Rhowch wybod inni pa fformat y bydd ei angen arnoch. Bydd yn ddefnyddiol inni gael gwybod gennych pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio.